Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Trosolwg o ddulliau asesu cymhwysedd iaith mewn detholiad o awdurdodaethau dwyieithog

Tîm Ymchwil:
Mererid Hopwood, Elin Meek, Lowri Lloyd, Meinir Ebbsworth

ar ran

Yr Athrofa

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

ar gyfer

Cymwysterau Cymru

Mawrth 2018

# CYNNWYS


1. Crynodeb Gweithredol 3

2. Nodyn i egluro rhai termau allweddol 9

3. Y Prosiect Ymchwil: 15
   i. Diben a chwmpas
   ii. Dull a rhesymwaith

4. Y Cyd-destun yn Ewrop ac yng Nghymru 19

5. Gwlad y Basg 25
   i. Cyd-destun yr addysg ac arbenigedd yr athrawon
   ii. Addysgu a dysgu ieithoedd, ymagweddau a dulliau
   iii. Asesu Ieithoedd
   iv. Nodiadau pellach

6. Y Ffindir 31
   i. Cyd-destun yr addysg ac arbenigedd yr athrawon
   ii. Addysgu a dysgu ieithoedd, ymagweddau a dulliau
   iii. Asesu Ieithoedd
   iv. Nodiadau pellach

7. Fryslân 37
   i. Cyd-destun yr addysg ac arbenigedd yr athrawon
   ii. Addysgu a dysgu ieithoedd, ymagweddau a dulliau
   iii. Asesu Ieithoedd
   iv. Nodiadau pellach

8. Iwerddon 43
   i. Cyd-destun yr addysg ac arbenigedd yr athrawon
   ii. Addysgu a dysgu ieithoedd, ymagweddau a dulliau
   iii. Asesu Ieithoedd
   iv. Nodiadau pellach

9. Y modelau asesu a ddefnyddir ar gyfer Saesneg fel ail iaith neu Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill 49

10. Casgliadau, ystyriaethau ac argymhellion 55

11. Llyfryddiaeth a ffynonellau 65

12. Atodiadau (gan gynnwys byrfoddau ac acronymau) 73

# ADRAN 1.
# CRYNODEB GWEITHREDOL

Noder:

Yn sgil trafodaethau gyda Chymwysterau Cymru dros gyfnod cychwynnol creu'r adroddiad hwn, tyfodd y gorchwyl. Bellach, erbyn i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi, mae gwaith gan amrywiol grwpiau oddi fewn y llywodraeth, rhai e.e. sy'n edrych ar y cwricwlwm a'r iaith Gymraeg, wedi symud rhagddo, ac mae rhai o'r argymhellion eisoes ar waith. Yr hyn sy'n amlwg o'r trafodaethau i gyd yw nad oes un fframwaith parod y gall Cymru ei fabwysiadu fel ag y mae, a bod cyfle i fathu dulliau asesu unigryw sy'n gweddu i sefyllfa ieithyddol Cymru.

## ADRAN 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r adroddiad hwn yn benllanw gwaith a gomisiynwyd gan Gymwysterau Cymru i edrych ar dueddiadau ym maes addysgu ac asesu ieithoedd mewn awdurdodaethau dwyieithog, gan nodi'r rhai a allai awgrymu llwybr ar gyfer datblygiadau yng Nghymru, gydag argymhellion ar feysydd posibl i ymchwilio ymhellach iddynt.

Cyflwynir yr adroddiad ar ffurf ymarfer cyfeirio ac fel y cyfryw mae wedi canolbwyntio'n bennaf ar dueddiadau mewn awdurdodaethau sydd â nodweddion ieithyddol tebyg i Gymru i ryw raddau neu'i gilydd, sef Gwlad y Basg, y Ffindir a Fryslân gydag Iwerddon yn bwynt cyfeirio ychwanegol.

Gwnaeth y tîm ymchwil desg a chyfweliadau Skype ag arbenigwyr yn y maes ym mhob awdurdodaeth.

I gyd-fynd ag agwedd ryngwladol yr adroddiad, mae adran ar y graddfeydd asesu a ddefnyddir mewn ysgolion ieithoedd yn y Deyrnas Gyfunol wedi'i chynnwys. Ystyriwyd hefyd sut y gellid cymharu'r modelau sy'n asesu ieithoedd yng Nghymru a rhannwyd canfyddiadau cychwynnol y gwaith hwn â Chymwysterau Cymru (gweler Argymhellion).

Yn gyffredinol, y casgliad amlycaf yw bod newid ar y gweill o ran y dulliau addysgu, dysgu ac asesu iaith yn yr awdurdodaethau sy'n sail i'r trosolwg hwn. Canlyniad y newidiadau polisi yn Ewrop i gyd o ran dysgu ieithoedd, ynghyd â mwy o ymdrech i hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol, yw bod y ffyrdd y cyflwynir ieithoedd mewn systemau addysg yn cael eu hadolygu. Mae'r adolygu hwn yn edrych o'r newydd nid yn unig ar yr hyn yw'r sgiliau iaith craidd a sut cânt eu haddysgu a'u hasesu, ond hefyd ar rôl iaith yn y gymdeithas.[1]

Er inni ganfod tystiolaeth o'r newidiadau hyn gyda'r dulliau newydd sy'n cael eu peilota, nid oes arwyddion eglur eto i ddangos a ydynt yn llwyddiannus ai peidio. Ac er nad oes un model sy'n cynnig ei hunan yn ei gyfanrwydd yn hawdd i Gymru, yn sicr mae elfennau o rai modelau sy'n werth edrych ymhellach arnynt.

### Cyd-destun

- Ni ellir datblygu asesu effeithiol ar ei ben ei hun, ond yn hytrach mewn partneriaeth â datblygiadau cwricwlwm ac addysgeg. Er mwyn deall sut gellir ei ddefnyddio orau fel adnodd i annog cynnydd disgyblion, mae angen ystyried amrywiaeth o ffactorau fel tueddiadau polisïau cenedlaethol a rhyngwladol, cyd-destun yr addysgu yn ogystal â statws a natur y pwnc o dan sylw.

- Mae tirwedd dysgu ieithoedd yn newid yng Nghymru fel y mae'n newid yn Ewrop. Mae gwleidyddion ac addysgwyr yn cydnabod gwerth hyrwyddo cymhwysedd disgyblion mewn ieithoedd. Yn rhan o'r duedd hon, mae'r ffordd rydym yn deall rôl iaith, ac yn enwedig rôl amlieithrwydd yn datblygu, gydag ymdeimlad cynyddol o werth ieithoedd fel cyfrwng posibl i gael cydlyniant diwylliannol.

---

[1] Wrth i'n harolwg dynnu at ei derfyn, cyhoeddwyd dau bapur, a'r ddau'n cadarnhau'r cyflwr hwn o newid. Gweler: *Key Data on Teaching Languages at School in Europe*. Ar gael ar-lein ar: https://webgate.ec.europa.eu/fpfis/mwikis/eurydice/images/0/06/KDL_2017_internet.pdf and *the Policy Review: The role of assessment in European language policy –a historical overview*. Ar gael ar-lein ar: http://www.meits.org/policy-papers/paper/the-role-of-assessment-in-european-language-policy-a-historical-overview. [Cyrchwyd ym mis Medi 2017].

- Yn y cyfnod hwn o newid, mae'r themâu sy'n datblygu yn y drafodaeth yn cynnwys:
  - Gwerth dysgu ieithoedd a sgiliau iaith
  - Amlieithrwydd / Lluosieithrwydd (*Plurilingualism*)
  - Amlieithrwydd ac addysgeg
  - Amlieithrwydd ac asesu
  - Set sgiliau ieithoedd mewn cyd-destun amlieithog
  - Rôl technoleg ddigidol

**Termau Allweddol**

O'r holl dermau ac acronymau sy'n ymddangos yn yr adroddiad, un o'r rhai mwyaf arwyddocaol yw 'Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd: Dysgu, Addysgu, Asesu' (CEFR). Defnyddir CEFR yn helaeth nid yn unig ar gyfer cyfleu llwybr cynnydd drwy gymhwysedd iaith, ond hefyd er mwyn cymharu meincnodi cyrhaeddiad ar draws ieithoedd. Mae ei ddatganiadau 'gallu gwneud' yn dylanwadu ar arferion addysgu ac asesu, lle gellir ei ddefnyddio'n ffurfiannol, yn grynodol ac yn ipsatif (gweler Adran 2). Gellir ei addasu'n effeithiol o'r naill gyd-destun i'r llall (naill ai ar gyfer ieithoedd gwahanol neu grwpiau oedran gwahanol). Adolygir ei ddisgrifyddion dangosol ar hyn o bryd.

**Gwlad y Basg**

- Mae Gwlad y Basg yn cynnwys saith rhanbarth; tri yn Ffrainc a phedwar yn Sbaen. O'r pedwar yn Sbaen, mae Bizkaia, Gipuzkoa ac Araba yn ffurfio cymuned ymreolaethol y Basgiaid, lle mae'r Fasgeg yn iaith swyddogol ar y cyd, ond siaredir Basgeg yn Navarra hefyd.
- At ddiben yr ymchwil hwn, mae 'Gwlad y Basg' yn cyfeirio'n bennaf at y gymuned ymreolaethol yn Sbaen.
- O ran y Fasgeg yn Sbaen, mae 33.9% o boblogaeth Gwlad y Basg ac oddeutu 10% o boblogaeth Navarra yn siaradwyr Basgeg (van Dongera, van der Meer and Sterk, 2017: 53).
- Mae addysg yn orfodol i rai 6–16 oed. Gellir ei rhannu'n 3 chategori yn ôl cyfrwng yr iaith, lle mae ysgolion wedi'u dosbarthu'n rhai model A, model B a model D. Yn yr ysgolion model A, ceir addysg cyfrwng Sbaeneg; yn y rhai model B, ceir addysg cyfrwng Sbaeneg yn bennaf, gyda pheth addysg cyfrwng Basgeg; yn y rhai model D, ceir addysg cyfrwng Basgeg yn gyfan gwbl, gyda Sbaeneg yn cael ei haddysgu fel pwnc gorfodol. Mae ysgolion model D yn dod yn fwyfwy poblogaidd.
- Ar ôl mynd drwy gyfnod o roi hyfforddiant Basgeg dwys i athrawon, mae'r system addysg bellach yn cydnabod yn eglur lefel y cymhwysedd sydd ei hangen mewn Basgeg er mwyn mynd i'r proffesiwn.
- Nid oes unrhyw asesiadau ffurfiol, allanol tan bydd disgybl yn 18 oed pan fydd rhaid sefyll yr arholiad *Selectividad* er mwyn cael mynediad at addysg uwch.
- Yn gyffredinol, mae gwersi iaith ar lefel uwchradd yn gogwyddo at ramadeg a llenyddiaeth. (Nid oes elfen lafar mewn arholiadau ieithoedd ar lefel *Selectividad*, er enghraifft.)
- Nodwedd drawiadol ar yr ysgolion cyfrwng Basgeg yw datblygiad cymhwysedd mewn tair iaith (Basgeg, Sbaeneg a Saesneg) lle mae'r dull Dysgu Cynnwys ac Iaith Integredig (CLIL) yn amlwg er mwyn trosglwyddo'r Saesneg, gyda phwyslais ar greu siaradwyr hyderus.
- Mae rhaglen helaeth o ddosbarthiadau Basgeg y tu allan i'r system ysgolion, gyda phwyslais ar elfen gyfathrebol iaith. Yn cyd-fynd â'r rhain mae arholiadau llwybr cynnydd a elwir yn *Perfiles Linguísticos* (cyf: Proffiliau Iaith) a'r *Euskerra Gaitasuna Aguira* (cyf: Tystysgrif Cymhwysedd Basgeg). Mae cyrhaeddiad yn yr arholiadau hyn yn gysylltiedig â gorfodaeth wedi'i chymeradwyo'n swyddogol o ran rhai proffesiynau.
- Defnyddir CEFR i fesur cymhwysedd mewn Sbaeneg yn yr Ysgolion Ieithoedd Swyddogol ac yn Sefydliad Cervantes lle addysgir Sbaeneg i dramorwyr. Fodd bynnag, ni all siaradwyr

brodorol sefyll yr arholiadau hyn. Yn achos Basgeg, ystyrir bod pob myfyriwr sydd wedi gorffen ei addysg uwchradd yn yr ysgolion model D wedi cyrraedd lefel B2 CEFR, ei fod ar lefel C1 ar ôl graddio o addysg brifysgol cyfrwng Basgeg, ac ar lefel C2 os yw wedi ysgrifennu traethawd doethuriaeth Basgeg. Yn y cynllun cwricwlwm newydd ar gyfer 2020, cyfeirir yn benodol at CEFR yng nghyd-destun ieithoedd tramor.

**Y Ffindir**

- Mae gan y Ffindir, un o wledydd Sgandinafia, ddwy brif iaith swyddogol, Ffinneg a Swedeg. Mae ganddi nifer o ieithoedd lleiafrifol swyddogol eraill. Swedeg yw ail iaith swyddogol y Ffindir gyda 5.5% o'r boblogaeth yn siarad Swedeg fel iaith gyntaf (van Dongera, van der Meer and Sterk, 2017: 97).
- Mae'r ieithoedd eraill y mae hawliau eu siaradwyr wedi'u diogelu gan y gyfraith, yn cynnwys Sámi, Romani, Iaith Arwyddion Ffinneg a Chareleg.
- Mae addysg yn orfodol i rai 7–16 oed, a gall disgyblion 6 blwydd oed fynychu darpariaeth cyn ysgol am flwyddyn yn rhad ac am ddim. Yn 2009 roedd tua 3,200 o ddisgyblion yn mynychu darpariaeth cyn ysgol Swedeg o gyfanswm o 57,000 o ddisgyblion (van Dongera, van der Meer and Sterk, 2017: 97).
- Yn yr ysgolion cyfrwng Ffinneg mae Swedeg yn orfodol, ac yn yr ysgolion cyfrwng Swedeg, mae Ffinneg yn orfodol.
- Mae pob disgybl yn dysgu o leiaf 3 iaith gyda'r iaith 1af 'nad yw'n famiaith', fel y'i gelwir yn y Ffindir, yn cael ei chyflwyno fel arfer pan fydd disgyblion yn 9 mlwydd oed, a'r 2il 'iaith nad yw'n famiaith' flwyddyn yn ddiweddarach.
- Nid oes arholiadau cenedlaethol, allanol tan yr arholiad matricwleiddio i gael mynediad at brifysgol, ac mae'r pwyslais yn drwm ar asesu ffurfiannol drwyddi draw, ar draws pob pwnc a phob oed, gyda ffocws eglur ar ddysgu'n hytrach nag ar brofi.
- Mae gan bob athro radd Meistr a rhoddir pwys ar Ddatblygu Dysgu Proffesiynol Parhaus (DDPP). Hefyd cydnabyddir gwerth datblygu dealltwriaeth athrawon o dechnegau asesu yn ogystal ag arbenigedd mewn Addysg a phynciau'r cwricwlwm.
- Defnyddir dull trochi achlysurol o'r enw 'y gawod' i addysgu ieithoedd, a gwelir elfennau o CLIL lle mae'r ffocws ar feithrin hyder disgyblion fel siaradwyr.
- Mae dull integredig o ddysgu ieithoedd, lle defnyddir ymagwedd amlieithog yn ogystal ag un amlddisgyblaethol, yn golygu bod gan ddisgyblion ganfyddiad gwell o amrywiaeth ddiwylliannol.
- Defnyddir fersiwn wedi'i addasu o CEFR i fynegi'r cynnydd ar draws ieithoedd ac mae cynlluniau ar y gweill i godi targedau a chyrhaeddiad yn yr elfennau sgiliau llafar ac ysgrifennu.

**Fryslân**

- Rhanbarth yng ngogledd orllewin yr Iseldiroedd yw Fryslân (hefyd Friesland neu Frisia). Mae ganddo boblogaeth o ryw 650,000. Ffriseg yw'r ail iaith swyddogol ar ôl Iseldireg. Mae tua 67% o'r boblogaeth yn siarad Ffriseg yn gymharol dda, mae tua 97% yn ei deall a gall tua 15% ei hysgrifennu'n dda (van Dongera, van der Meer and Sterk, 2017: 57).
- Mae addysg yn orfodol i rai 5–16 oed.
- Nid oes ysgolion uwchradd Ffriseg dwyieithog nac unieithog.
- Mae'r asesu'n gyfuniad o brofion mewnol ac allanol, gyda phrawf addasrwydd ar gael ar ddiwedd addysg gynradd, ac arholiadau ymadael i ddisgyblion 16 ac 18 oed.

- Mae Ffriseg yn orfodol drwy'r sectorau cynradd ac uwchradd; fodd bynnag, er iddi fod yn orfodol cyflwyno Ffriseg yn y sector uwchradd ers 1993, nid yw ‘eto wedi cyflawni'r canlyniadau a ddisgwylid’ (Mercator, 2010: 39), ac yn ymarferol mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn addysgu Ffriseg fel pwnc am awr yn unig yr wythnos.
- Yn ystod camau olaf addysg uwchradd, er y gall disgyblion ddewis ‘proffil’ o bynciau, mae Iseldireg a Saesneg yn bynciau gorfodol beth bynnag.
- Yn achos Iseldireg, asesir sgiliau darllen, ysgrifennu a gwrando weithiau, tra mai darllen a deall yn unig a asesir yn achos Ffriseg.
- Datblygiad trawiadol yn y system Ffriseg yw'r symudiad tuag at addysg dairieithog. Yn rhan o'r gwaith hwn, datblygir rhaglen hollol newydd o ddeunyddiau addysgu, dysgu ac asesu. Mae'n seiliedig ar y *Referinsjeramt Frysk* (Fframwaith Cynnydd Ffriseg), sef fframwaith cynnydd cysylltiedig â CEFR, sy’n cynnwys datganiadau ‘gallu gwneud’ CEFR ar gyfer y parthau cymhwysedd amrywiol. GRIP yw'r enw ar y rhaglen hon ac mae ei nodweddion yn cynnwys:
    - pwyslais ar dechnoleg ddigidol
    - cydnabyddiaeth fod 5ed sgil iaith (ychwanegir ‘sgwrsio’ at wrando, siarad, darllen ac ysgrifennu)
    - pwyslais ar gynlluniau cynnydd hunanwerthuso ac unigoledig
    - dysgu sy’n seiliedig ar dasgau

**Iwerddon**

- Dywed Cyfrifiad 2011 yng Ngweriniaeth Iwerddon fod 41.4% o'r boblogaeth yn eu diffinio eu hunain yn siaradwyr Gwyddeleg (van Dongera, van der Meer and Sterk, 2017: 79).
- Gwyddeleg yw iaith genedlaethol Iwerddon ac fel y cyfryw, hi yw iaith swyddogol gyntaf Iwerddon gyda Saesneg yn ail iaith swyddogol (ibid.).
- Mae addysg yn orfodol i rai 6–16 oed, ac fe’i rhennir yn sectorau cynradd ac ôl-gynradd. O ran iaith, mae ysgolion wedi'u dosbarthu: yn ysgolion cyfrwng Gwyddeleg, yn rhai cyfrwng Saesneg ac yn ysgolion gyda ffrydiau cyfrwng Gwyddeleg sydd ynghlwm wrth ysgolion cyfrwng Saesneg.
- Mae Gwyddeleg yn orfodol ym mhob math o ysgol (o 6 oed ymlaen), a chyflwynir Iaith Dramor Fodern (ITM) yn y sector ôl-gynradd.
- Mae cynlluniau i ddiwygio'r ffordd yr addysgir Gwyddeleg ar y gweill yn rhan o strategaeth 20 mlynedd (2010-2030).
- Ym mis Ebrill 2017 galwodd y llywodraeth am yr angen am adolygu addysgu ITM ac am edrych eto ar gynlluniau i gyflwyno iaith dramor yn y sector cynradd.
- Mae angen rhyw lefel o gymhwysedd mewn Gwyddeleg ar athrawon yn y sector cynradd, er bod y gofynion lefel mynediad i Addysg Gychwynnol i Athrawon wrthi’n cael eu diwygio.
- Mae ysgolion cyfrwng Gwyddeleg yn dilyn y dull trochi yn y sector cynradd.
- Ar lefel uwchradd (ôl-gynradd) mae dwy set o arholiadau: ‘Junior Certificate’ a ‘Leaving Certificate’. Mae'r rhain hefyd yn cael eu hadolygu. O ran asesu Gwyddeleg, un math yn unig o arholiad iaith a geir ar hyn o bryd, sydd ar L2, lefel ail iaith, lle asesir Saesneg fel L1, lefel iaith gyntaf. At hynny, mae elfennau llenyddiaeth, hanes a hunaniaeth ddiwylliannol wedi lleihau yn yr arholiad Gwyddeleg cyfredol.
- Un o'r cynigion ar gyfer y diwygio yw y dylai'r rhaglen newydd gynnwys asesiad newydd o sgiliau llafar ar gyfer ITM a Gwyddeleg.
- O ran potensial technoleg ddigidol i wella dysgu ieithoedd, eto, mae hyn yn rhan o'r strategaeth 20 mlynedd gan gydnabod ei fod yn faes y mae angen ei ddatblygu.

- Nid oes croesgyfeirio amlwg at CEFR yn y system ysgolion, er y caiff ei ddefnyddio i fapio'r Teastas Eorpach na Gaelige (cyf: Tystysgrif Ewrop mewn Gwyddeleg), sef set ar wahân o arholiadau a anelir at oedolion yn bennaf.

**Pwyntiau Cymharu: Basgeg a Gwyddeleg**

Gwlad y Basg ac Iwerddon sydd debycaf i Gymru o ran proffiliau ieithyddol. Mae'r pwyntiau canlynol yn dangos y strategaethau sydd yn eu lle yng Ngwlad y Basg nad ydynt mor amlwg yn y system addysg yn Iwerddon nac yng Nghymru.

- defnyddio CEFR i fapio a dynodi lefelau cynnydd (yn y system ysgolion ac yn y system dysgu iaith i oedolion)
- cydbwysedd rhwng asesu mewnol ac allanol
- addysgeg amlieithog hyblyg gyda phwyslais ar ddatblygu lluosieithrwydd
- addysgeg CLIL gyfoethog sy'n sicrhau bod nifer uchel o oriau cyswllt ar yr amserlen er mwyn hyrwyddo addysgu iaith
- rhaglenni iaith addysg athrawon dwys
- cwricwlwm sy'n cynnwys dimensiynau diwylliannol fel llenyddiaeth ar draws pob iaith
- gorfodaeth gan y llywodraeth fod rhaid bod â rhuglder ar lefel uchel mewn Basgeg ar gyfer swyddi cyhoeddus a llwybrau cyflogaeth eraill.

**Modelau Asesu yn y DU**

- Defnyddir CEFR yn helaeth yn y modelau addysgu, dysgu ac asesu Saesneg (i siaradwyr ieithoedd eraill), gyda nifer o addasiadau ohono er mwyn gweddu i gyd-destunau penodol.
- O ran Cymraeg, er bod cymwysterau 'Cymraeg i Oedolion' yn cyfeirio at CEFR, yn y system ysgolion ar hyn o bryd nid oes dull amlwg ar gael sy'n hawdd i fapio cymariaethau rhwng lefelau cyrhaeddiad mewn Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith.

**Mae'r argymhellion yn cynnwys:**

- Ystyried gwaith pellach ar y tueddiadau newydd o ran addysgu ac asesu ieithoedd a welwyd yn yr awdurdodau dan sylw er mwyn ennill dealltwraieth ddyfnach; gallai hyn gynnwys, ymhlith pethau eraill, graffu ar ddatblygiadau sy'n symud o asesu yn ôl norm at asesu yn ôl meini prawf ac asesu ipsatif; ynghyd â dadansoddi systematig o sampl o bapurau arholiad sydd wedi'u hanelu at ddisgyblion 16 oed ar gyfer y gwahanol ieithoedd.
- Ystyried sut y gallai asesu medrusrwydd iaith gael ei gyfoethogi drwy archwilio posibliadau a goblygiadau deall a labelu dysgu ieithoedd fel datblygiad set o sgiliau y tu hwnt i'r pedwar rhaniad traddodiadol o wrando, siarad, darllen ac ysgrifennu, ac ystyried y manteision a allasai ddod o amlygu cyfuniadau sy'n plethu'r rhain.
- Cefnogi bwriad Llywodraeth Cymru i sefydlu continwwm dysgu iaith.

D.S. O ran y ddau bwynt olaf yn benodol, mae potensial amlwg i gyfuno gwaith Cymwysterau Cymru â gwaith prosiect 'CAMAU', o dan arweiniad Yr Athrofa, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) a Phrifysgol Glasgow mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru (LlC). Nod y prosiect hwn yw edrych ar sut gellir disgrifio cynnydd a'i ddatblygu orau o ran pob un o Feysydd Dysgu a Phrofiad y cwricwlwm newydd. Yn ogystal mae'r prosiect yn ymchwilio i sut gellir cyfleu, disgrifio a defnyddio camau cynnydd er mwyn cynorthwyo'r broses ddysgu yn y modd mwyaf effeithiol. Yn rhan o'r drafodaeth o ran maes cwricwlwm 'Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu', mae'r grŵp yn gofyn sut gellir gwahaniaethu disgrifyddion cynnydd generig er mwyn ystyried profiad dysgwyr ieithoedd amrywiol.

# ADRAN 2.

# NODYN I EGLURO RHAI TERMAU ALLWEDDOL

**ADRAN 2. NODYN I EGLURO RHAI TERMAU ALLWEDDOL**

**D.S. Ceir rhestr lawn o fyrfoddau ac acronymau yn Atodiad 1.**

**i. Asesu: Ar sail meini prawf neu gan gyfeirio at feini prawf**

Yn y ffurf hon ar asesu, mae'r canlyniad yn dangos a yw'r dysgwr (neu'r sawl sy'n sefyll y prawf) wedi perfformio'n dda ai peidio yn y prawf o dan sylw; h.y. ei brif ddiben yw gweld a yw'r dysgwr wedi dysgu'r deunydd yn hytrach na chymharu perfformiad y dysgwr yn erbyn perfformiad dysgwyr eraill.

**ii. Asesu: Ipsatif**

Mewn cyd-destun addysgol, mae'r ffurf hon ar asesu'n cyfeirio gan amlaf at yr arfer o asesu perfformiad presennol y dysgwr (neu'r sawl sy'n sefyll y prawf) yn erbyn ei berfformiad blaenorol.

**iii. Asesu: Gan gyfeirio at y norm**

Proses yw'r ffurf hon ar asesu sy'n cymharu un dysgwr (neu'r sawl sy'n sefyll y prawf) yn erbyn un arall; h.y. mae'r canlyniad yn gosod dysgwr mewn trefn yn ôl perfformiad dysgwyr eraill yn y prawf o dan sylw, gan gynnwys a yw'r sawl sydd wedi sefyll y prawf wedi perfformio'n well neu'n waeth nag eraill.

**iv. Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd: Dysgu, Addysgu, Asesu (CEFR)**

Sefydlwyd Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd: Dysgu, Addysgu, Asesu, a dalfyrrir fel arfer yn CEFR, gan Gyngor Ewrop yn 2001. Mae'n ganlyniad amrywiaeth o brosiectau a phrosesau a ddatblygwyd gan Gyngor Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd sydd â chysylltiad agos ag asesu ieithoedd, gan gynnwys *Item Writer Guidelines* Cymdeithas Profwyr Ieithoedd yn Ewrop (ALTE), y *Multilingual Glossary of Language Testing Terms*, y *Content Analysis Checklists* a'r *Framework for Critical Levels of Language Performance* (am fanylion gweler Gutierrez Eugenio a Saville, 2017: 2). Daeth yn ddull safonol nid yn unig er mwyn mapio cymhwysedd iaith, ond hefyd er mwyn llywio dysgu ac addysgu ieithoedd ledled Ewrop a thu hwnt. Mae iddo chwe lefel gyfeirio o A1 i C2, lle mae A1 yn dynodi lefel 'mynediad' neu 'dechreuwyr' a C2 yn lefel 'meistroli' neu 'hyfedredd'.

Ar yr un pryd â'r gwaith ar yr arolwg hwn, gwnaed ymgynghoriad ar fersiwn newydd ac estynedig o ddisgrifyddion CEFR gyda dyddiad cau ar gyfer sylwadau ar 15 Chwefror 2017. Roedd y fersiwn newydd hwn i'w gyhoeddi yn ystod haf 2017, ond hyd yma ni chafodd ei gyhoeddi. Bydd ar gael ar dudalennau CEFR Gwefan Cyngor Ewrop maes o law.[2]

Mae rhai ysgolion ieithoedd a byrddau arholi wedi datblygu lefelau sy'n arwain at A1 er mwyn diwallu anghenion dysgwyr iau (am esiamplau, gweler Adran 9).

Mae disgrifyddion CEFR yn seiliedig ar ddull 'gallu gwneud'. Nid ydynt yn ddisgrifyddion caeth ac ni ellir eu cyfieithu a'u 'cyfateb' yn syml o'r naill iaith i'r llall. Felly, er ei fod yn cynnig cymariaethau rhyngwladol effeithiol, bwriedir i'r fframwaith gael ei ddehongli yn ôl anghenion pob iaith. Er enghraifft, petai ateb cwestiwn 'yes/no' yn gyrhaeddiad sylfaenol ar lefel isel yn Saesneg, yna yn Gymraeg, byddai'n cael ei osod ar lefel cyrhaeddiad lawer uwch, o gofio bod angen dealltwriaeth a

[2] Cyngor Ewrop. Dim dyddiad. Common European Framework Reference Languages. Ar gael ar-lein ar: http://www.coe.int/en/web/common-european-framework-reference-languages [Cyrchwyd ym mis Awst 2017].

gwybodaeth o lu o ffurfiau er mwyn ateb yn gadarnhaol yn Gymraeg, ac felly byddai angen mwy o hyfedredd.

Tri phrif ddimensiwn CEFR yw:

i) gweithgareddau iaith, sydd yn eu tro'n cael eu rhannu'n:
   a. derbyn (gwrando a darllen)
   b. cynhyrchu (siarad ac ysgrifennu)
   c. rhyngweithio
   ch. cyfryngu (cyfieithu a chyfieithu ar y pryd)

ii) parthau defnyddio iaith, e.e. addysgol, galwedigaethol, cymdeithasol, personol ac ati

iii) y cymwyseddau y mae siaradwyr yn eu defnyddio wrth ymwneud â gweithgareddau iaith.

Mae llawer o gyrff asesu ieithoedd yn defnyddio graddfa CEFR i ddisgrifio lefelau cynnydd, e.e. *Cambridge English Language Assessment*, *Centre International d'Etudes Pedagogique* (CIEP, cyf: Canolfan Ryngwladol ar gyfer Astudiaethau Pedagogeg) a'r *Teastas Eoprach na Gaeilge* (TEG, cyf: Tystysgrif Ewrop mewn Gwyddeleg).

Mae'n amhosibl cyfrifo'n union faint o oriau addysgu a dysgu sydd eu hangen i gyrraedd y lefelau CEFR amrywiol, gan fod gan bob iaith, yn ogystal â phob dysgwr, ofynion gwahanol. Fodd bynnag, mae Tablau yn Atodiad 9 yn rhoi rhyw awgrym o hyn ac yn nodi amcangyrfifon y Cambridge English a'r cwricwlwm sylfaenol ar gyfer Basgeg.

Dengys Tabl 1 ddisgrifiadau safonol pob lefel.

**TABL 1.** Lefelau CEFR fel mae Cyngor Ewrop yn eu disgrifio[3]

| | | |
|---|---|---|
| **PROFICIENT USER** | C2 | Can understand with ease virtually everything heard or read. Can summarise information from different spoken and written sources, reconstructing arguments and accounts in a coherent presentation. Can express him/herself spontaneously, very fluently and precisely, differentiating finer shades of meaning even in more complex situations. |
| | C1 | Can understand a wide range of demanding, longer texts, and recognise implicit meaning. Can express him/herself fluently and spontaneously without much obvious searching for expressions. Can use language flexibly and effectively for social, academic and professional purposes. Can produce clear, well-structured, detailed text on complex subjects, showing controlled use of organisational patterns, connectors and cohesive devices. |
| **INDEPENDENT USER** | B2 | Can understand the main ideas of complex text on both concrete and abstract topics, including technical discussions in his/her field of specialisation. Can interact with a degree of fluency and spontaneity that makes regular interaction with native speakers quite possible without strain for either party. Can produce clear, detailed text on a wide range of subjects and explain a viewpoint on a topical issue giving the advantages and disadvantages of various options. |
| | B1 | Can understand the main points of clear standard input on familiar matters regularly encountered in work, school, leisure, etc. Can deal with most situations likely to arise whilst travelling in an area where the language is spoken. Can produce simple connected text on topics which are familiar or of personal interest. Can describe experiences and events, dreams, hopes & ambitions and briefly give reasons and explanations for opinions and plans. |
| **BASIC USER** | A2 | Can understand sentences and frequently used expressions related to areas of most immediate relevance (e.g. very basic personal and family information, shopping, local geography, employment). Can communicate in simple and routine tasks requiring a simple and direct exchange of information on familiar and routine matters. Can describe in simple terms aspects of his/her background, immediate environment and matters in areas of immediate need. |
| | A1 | Can understand and use familiar everyday expressions and very basic phrases aimed at the satisfaction of needs of a concrete type. Can introduce him/herself and others and can ask and answer questions about personal details such as where he/she lives, people he/she knows and things he/she has. Can interact in a simple way provided the other person talks slowly and clearly and is prepared to help. |

[3] Cyngor Ewrop 2017. CEFR. [AR-LEIN] Ar gael yn: http://*www.coe.int/en/web/common-european-framework-reference-languages/table-1-cefr-3.3-common-reference-levels-global-scale*. [Cyrchwyd ym mis Awst 17].

**v. Dysgu Cynnwys ac Iaith Integredig (CLIL)**

Dull yw Dysgu Cynnwys ac Iaith Integredig (a dalfyrrir fel arfer fel CLIL) sydd wedi'i seilio ar gyfuno dull trochi addysgu iaith ac addysgu sy'n seiliedig ar gynnwys. Mae'n dysgu cynnwys cwricwlwm (yn benodol, pynciau heblaw am 'iaith', e.e. daearyddiaeth, hanes ac ati) drwy gyfrwng iaith sy'n wahanol i iaith gartref y disgyblion (neu brif iaith yr ysgol). Fe'i hyrwyddwyd gan Gomisiwn Cymunedau Ewrop o dan raglenni Socrates ac Eurydice yn rhan o'u hymgais 'to disseminate new, specific methodologies for teaching subjects through languages other than the lingua franca' (Comisiwn Cymunedau Ewrop, 2003:16).

**vi. Sgiliau rhyngweithredol iaith/ Cymhwysedd rhyngweithredol iaith**

Un o amcanion penodol y briff ymchwil oedd nodi beth yw ystyr 'sgiliau rhyngweithredol iaith' neu 'gymhwysedd rhyngweithredol iaith' ('language transactional skills' / 'language transactional competence' yn Saesneg).

Nid oedd y termau hyn yn cael eu defnyddio mewn unrhyw un o'r gwledydd yr edrychwyd arnynt, er bod cyfeiriad at y term yn ymddangos yn nisgrifiadau lefel y CEFR ('transactions to obtain goods and services').[4]

Er bod cymhwysedd iaith yn draddodiadol yn cael ei rannu'n bedwar sgìl: gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu (gelwir y rhain drwy gydol y ddogfen yn 'y pedwar sgìl craidd'), bydd chwilio sydyn ar-lein yn nodi bod mwy a mwy o alw am nodi rhagor o sgiliau iaith.

Roedd un o'r cyfweleion o Fryslân o'r farn y gellid dehongli'r ymadrodd 'transactional competence' yn Saesneg fel 'interactional competence'; lle gallai hyn, yn ei dro, gyfateb i'r 5ed parth (neu sgìl), sef y 'cymhwysedd sgwrsio' sydd wedi'i gynnwys yn y fframwaith Ffriseg newydd. (Hwn yw'r adnodd dysgu iaith digidol a ddatblygir yn Fryslân, o'r enw'r *Referinsjeramt Frysk*, gweler Adran 7).

Ystyrir bod y sgìl hwn o 'siarad mewn sgwrs' yn sgìl gwahanol i 'siarad' neu 'wrando' ar eu pennau eu hunain; mae'n gofyn am y gallu i ddirnad ystyr, (y gellid ei ddiffinio fel dimensiwn 'gweithredol' 'gwrando') yn ogystal â'r gallu i 'ymateb mewn sgwrs'.

Yn ogystal, roedd cyfwelai o Wlad y Basg yn awyddus i bwysleisio manteision posibl datblygu cydnabyddiaeth am sgiliau 'deall' eang, lle gallai dinesydd nodi ei fod yn gallu *deall* iaith er nad yw'n gallu ei *chynhyrchu* eto.

Hefyd trafodwyd â rhai cyfweleion y posibilrwydd o ddatblygu cydnabyddiaeth am y set sgiliau sydd ei hangen er mwyn cyfathrebu *ar draws* ieithoedd a phrosesu *nifer o* ieithoedd.

**vii. Amlieithrwydd**

Ar y cyfan, defnyddir y term hwn i ddisgrifio cydfodolaeth gwahanol ieithoedd yn y gymdeithas neu ym meddwl unigolyn. Mae'n dynodi bod amrywiaeth o ieithoedd ar gael ond eu bod yn cael eu defnyddio ar wahân.

---

[4] Cyngor Ewrop, dim dyddiad, *Common European Framework of Reference for Languages: Learning, teaching, assessment*. AR-LEIN. Ar gael yn: https://rm.coe.int/168045b15e [Cyrchwyd Tachwedd 2017] t.17.

**viii. Aml-lythrennedd**

Mae cwricwlwm y Ffindir yn cyfeirio at 'aml-lythrennedd'. Bathwyd y term hwn gan academyddion 'New London Group' yn y 1990au ac fe'i defnyddir i gyfeirio at yr amryfal ffyrdd o gyfathrebu ystyr yng nghyd-destun cymdeithas sy'n defnyddio technoleg sy'n newid yn barhaus. Mae wedi datblygu llawer o ddiffiniadau ond deellir yn gyffredinol ei fod yn cyfeirio at y gallu i weithio drwy ddylanwadau testun amlfoddol a'r gallu i gyfleu a deall ystyr nid yn unig drwy ffurfiau ieithyddol ond hefyd drwy ffurfiau gweledol, sain, gofodol ac ystumiol (gweler Cazden, C.; Cope, B.; et al, 1996: 60–92).[5]

**ix. Lluosieithrwydd (*Plurilingualism*)**

Mae lluosieithrwydd yn pwysleisio sut mae ieithoedd (a diwylliannau) yn rhyng-gysylltu ac yn rhyngweithio ym meddwl unigolyn. Mae gan hyn gysylltiad agos â chymhwysedd rhyngddiwylliannol. Mae'r esboniad isod wedi'i godi o gyhoeddiad diweddar gan Gyngor Ewrop:

> Plurilingual competence refers to the repertoire of resources which individual learners acquire in all the languages they know or have learned, and which also relate to the cultures associated with those languages (languages of schooling, regional/minority and migration languages, modern or classical languages […] Once acquired, intercultural competence makes it easier to understand otherness, establish cognitive and affective links between past and new experiences of otherness, mediate between members of two (or more) social groups and their cultures, and question the assumptions of one's own cultural group and environment (Beacco et al, 2016b: 10).

**x. Cymwyseddau ardraws (*Transversal competencies*)**

Mae 'cymwyseddau ardraws' yn un o'r termau diddorol sy'n codi yng nghwricwlwm y Ffindir. Mae UNESCO wedi diffinio'r rhain fel sgiliau eang sy'n anelu at ateb heriau newydd, byd-eang, fel datblygiadau technolegol a chyfathrebu rhyngddiwylliannol. Weithiau cyfeirir atynt fel 'Sgiliau'r 21ain ganrif'. Dyma barthau a nodweddion allweddol diffiniad gweithio UNESCO o gymwyseddau ardraws:

> **Critical and innovative thinking** / Creativity, entrepreneurship, resourcefulness, application skills, reflective thinking, reasoned decision-making
> **Inter-personal skills** / Presentation and communication skills, leadership, organizational skills, teamwork, collaboration, initiative, sociability, collegiality
> **Intra-personal skills** / Self-discipline, enthusiasm, perseverance, self-motivation, compassion, integrity, commitment
> **Global citizenship** / Awareness, tolerance, openness, respect for diversity, intercultural understanding, ability to resolve conflicts, civic/political participation, conflict resolution, respect for the environment
> **Optional domain: (Example) Physical and psychological health** / Healthy lifestyle, healthy feeding, physical fitness, empathy, self-respect
>
> (UNESCO, 2003: 4–5)

[5] Noder bod cysyniad 'aml-lythrennedd' yn arbennig o ddiddorol o safbwynt Cymru, o gofio sut mae 'Cyfathrebu' wedi'i gynnwys yn elfen ar wahân ym Maes Dysgu a Phrofiad 'Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu' yn niwygiad cwricwlwm *Dyfodol Llwyddiannus* Donaldson yng Nghymru (LlC1, 2015).

# ADRAN 3.
# Y PROSIECT YMCHWIL

**ADRAN 3. Y PROSIECT YMCHWIL**

**i) Diben a chwmpas**

Comisiynwyd y trosolwg hwn gan Gymwysterau Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu addysgu, dysgu ac asesu 2 (+1) iaith yng Nghymru.[6] Roedd wedi'i gyfyngu i werth 25 niwrnod o ymchwil dros gyfnod o ddau fis.

Ei fwriad oedd bod yn ymarfer cyfeirio er mwyn nodi'r tueddiadau sydd ar waith ym maes addysgu ac asesu ieithoedd mewn awdurdodaethau dwyieithog, gan nodi'r rhai a allai awgrymu llwybr ar gyfer datblygiadau yng Nghymru, a chan gynnig sylfaen gynhwysfawr o ffynonellau eilaidd gydag awgrymiadau ynghylch meysydd posibl lle gellid gwneud rhagor o waith (gweler Adran 10).

Hefyd roedd yn gwahodd elfen *adfyfyriol* a oedd yn cysylltu'r canfyddiadau â Chymru ac â rôl asesu yn y cwricwlwm diwygiedig. Yn hyn o beth, er bod y trosolwg wedi cynhyrchu argymhellion y gallai Cymwysterau Cymru eu defnyddio i weithredu arnynt yn y dyfodol agos, mae hefyd wedi awgrymu rhai meysydd sydd y tu hwnt i gwmpas cyfrifoldebau Cymwysterau Cymru. Cynhwyswyd y rhain serch hynny, er mwyn cydnabod nad yw datblygu asesu effeithiol yn digwydd ar ei ben ei hun, ond yn hytrach ar y cyd â datblygu cwricwlwm ac addysgeg, sydd ag annog cynnydd dysgwyr yn nod cyffredinol.

**ii) Dull a rhesymwaith**

Roedd y briff ymchwil yn nodi bod angen ystyried awdurdodaethau sydd â nodweddion ieithyddol tebyg i rai Cymru. O'r pump a restrwyd fel enghreifftiau, nododd dogfen dendr PCYDDS y byddai'r gwaith yn ystyried tair yn bennaf, sef Gwlad y Basg, y Ffindir a Fryslân, gydag Iwerddon yn bwynt cyfeirio ychwanegol.

Roedd Gwlad y Basg, y Ffindir a Fryslân o ddiddordeb arbennig gan fod pob un wedi ymgysylltu â'r hyn a elwir yn 'Amcan Barcelona', sef datblygu disgyblion i ddod yn siaradwyr 'mamiaith + 2 iaith', neu yn achos awdurdodaethau dwyieithog, '2 iaith + 1'. Strategaeth yw 'Amcan Barcelona' (a gododd o gyfarfod Cyngor Ewrop [CE] ym mis Mawrth 2002), sy'n gweld systemau addysg yn gweithio tuag at arfogi eu disgyblion â chymhwysedd tairieithog (i gael cefndir, gweler Gutierrez Eugenio a Saville, 2017:3, hefyd CE, 2002: 19 pgff 44). Mae hyn yn unol ag uchelgais Llywodraeth Cymru a nodwyd yn nogfen *Dyfodol Byd-Eang* yn 2015 (LlC 3, 2015).

Mae Iwerddon a Gwlad y Basg yn cynnig cyfatebiaeth amlwg, o gofio eu bod yn awdurdodaethau dwyieithog mewn cyd-destun lleiafrifol/mwyafrifol lle nad yw'r ieithoedd (Basgeg a Sbaeneg / Gwyddeleg a Saesneg) yn rhannu'r un tarddiad ieithyddol.

Mae Fryslân ychydig yn wahanol, oherwydd er ei bod hi hefyd yn awdurdodaeth ddwyieithog sydd â chyd-destun lleiafrifol/mwyafrifol, mae'r ieithoedd o dan sylw, Ffriseg ac Iseldireg, yn tarddu o'r un bôn ac yn perthyn yn agos. Serch hynny, oherwydd datblygiadau diweddar yn Fryslân ym maes asesu ieithoedd yn ddigidol, sy'n ceisio teilwra adnodd cynnydd digidol unigoledig, ystyriwyd bod y wlad yn werth ei chynnwys yn ein harolwg.

Mae'r Ffindir yn cynnig model gwahanol, lle mae Ffinneg a Swedeg yn ddwy brif iaith swyddogol gyda nifer o ieithoedd lleiafrifol swyddogol gan gynnwys Sámi a Romani. O'r ddwy brif iaith swyddogol yn y Ffindir, Swedeg yw'r iaith leiafrifol, eto hi yw prif iaith Sweden, y wlad sy'n rhannu ffin â hi. Felly mae mewn sefyllfa wahanol iawn i'r Gymraeg, y Fasgeg a'r Wyddeleg, gan nad yw'r

[6] Ar gyfer '2 (+1)' gweler yr 2il baragraff o dan 'Dull a rhesymwaith' isod.

rhain yn ieithoedd mwyafrifol mewn unrhyw wlad. (I gael trosolwg o broffil ieithyddol y gwledydd yn ein harolwg, ynghyd ag awgrym sut maent yn defnyddio CEFR, gweler Tabl 5a, Atodiad 2).

Fel y nodwyd yn y ddogfen dendr, gwnaeth y tîm ymchwilio waith ymchwil desg a chyfweliadau ffôn a Skype ag arbenigwyr yn y maes ym mhob un o'r awdurdodaethau o dan sylw.

Dylid nodi yn amlwg na fu'n bosibl dihysbyddu'r maes enfawr a chael mynediad at yr holl erthyglau ac astudiaethau perthnasol o fewn cyfyngiadau'r prosiect ymchwil. At hyn, noder hefyd, fel soniwyd eisoes, fod gwybodaeth newydd a gwahanol yn cael ei chyhoeddi'n gyson. Bu'r cyfweliadau ffôn/Skype ag arbenigwyr yn ffynhonnell bwysig, a hyn sydd i gyfrif am natur anecdotaidd rhai o'r gosodiadau yn yr adroddiad. Fel man cyswllt cyntaf, roedd y cyfweleion yn gallu cyfeirio'r tîm, gan nodi unrhyw feysydd o ddiddordeb arwyddocaol; mewn ambell achos roeddent hefyd ar gael i lywio ymholiadau pellach ar hyd y daith, yn dibynnu ar unrhyw gwestiynau y gallai'r ymchwil desg fod wedi'u datgelu.

Rhestrir y cyfweleion a'r ymatebwyr arbenigol ar ddiwedd y ddogfen hon. Fe'u dewiswyd fel arbenigwyr mewn agweddau ar addysgu ieithoedd ac fel arbenigwyr yr oedd y tîm ymchwilio'n gallu cysylltu â nhw yn ystod yr amser a oedd ar gael. Wrth ddiolch i bob un o'r cyfweleion a'r cyfranwyr am roi o'u hamser i ymateb i'r ymholiadau, mae'r awduron yn nodi mai'r awduron eu hunain sy'n gyfrifol am y casgliadau a wneir a'r farn a fynegir.

Sefydlwyd y llinellau ymchwilio drwy drafodaeth â Chymwysterau Cymru a'u nod oedd ymchwilio i saith brif thema (gyda rhywfaint o orgyffwrdd anochel rhyngddynt) sef:

i. Y sgiliau iaith a asesir ac esboniad o'r derminoleg a ddefnyddir
ii. Y defnydd o asesu mewnol ac allanol
iii. Y berthynas rhwng asesu a strategaethau addysgu / dysgu
iv. Mecanweithiau mapio cynnydd y dysgwyr unigol
v. Y berthynas rhwng asesu'r ddwy (neu ragor) o ieithoedd o dan sylw
vi. Rôl technoleg ddigidol wrth asesu sgiliau iaith
vii. Unrhyw ymyriadau llwyddiannus/aflwyddiannus diweddar o ran dulliau asesu. [7]

Mae'r amrywiaeth yn y manylder rhwng yr adrodd am y pedair gwlad yn adlewyrchu natur y deunydd a oedd ar gael o fewn cyfyngiadau'r prosiect. Roedd cryn dipyn o ddogfennaeth y Ffindir ar gael yn Saesneg, felly rydym wedi gallu cynnwys dyfyniadau uniongyrchol o'r ffynonellau hyn. Mae'r cyhoeddiadau o Wlad y Basg a Fryslân bron yn llwyr yn Sbaeneg/Basgeg ac Iseldireg/Ffriseg, a dyma pam mae llai o ddyfyniadau uniongyrchol. Roedd yr adran ar Iwerddon yn ychwanegiad at y cwmpas gwreiddiol y cytunwyd arno a cheir rhagor o fanylion os oes angen ar y gwefannau y cyfeirir atynt yn y llyfryddiaeth yn Adran 11 a'r atodiadau yn Adran 12.

Er mwyn cyd-fynd â'r trosolwg o asesu ieithoedd yn y cyd-destun rhyngwladol, cytunwyd y byddai'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r graddfeydd asesu a ddefnyddir mewn ysgolion ieithoedd yn y DU (gweler Adran 9), yn ogystal ag ystyried y modelau asesu iaith cyfredol yng Nghymru a'r cysylltiad rhwng y Fframwaith Llythrennedd a llwybrau cynnydd eraill (cyflwynwyd hwn i Gymwysterau Cymru).

Yn ogystal â'r uchod, yn ystod ein hymchwil daeth yn amlwg y byddai'n rhaid i unrhyw ddatblygiadau ym maes asesu ieithoedd ystyried tirwedd ieithoedd ym myd addysg yn gyffredinol sy'n newid o hyd. Mae cryn dipyn o gyhoeddiadau diweddar yn tynnu sylw at y symud ar hyn o bryd sy'n ailddiffinio sut ystyrir rôl ieithoedd mewn ysgolion ac yn y gymdeithas a beth allai eu gwerth fod y tu hwnt i

[7] I weld fframwaith cwestiynau'r cyfweliadau, gweler Atodiad 8.

gyfathrebu'n unig. Clywir y drafodaeth hon ar lwyfan Ewrop a Chymru. Mae'r ailddiffinio hwn, sy'n dod hefyd ag awgrym ei bod hi'n bryd newid sut rydym yn dosbarthu'r pedwar sgìl iaith craidd, yn arwain yn anochel at yr angen am ddatblygu nid yn unig *sut* caiff iaith ei hasesu ond hefyd *beth.*

# ADRAN 4.
# Y CYD-DESTUN

# YN EWROP AC YNG NGHYMRU

**ADRAN 4. CYD-DESTUN**

**EWROP**

Mae Gutierrez Eugenio a Saville (2017), mewn papur diweddar ar rôl asesu mewn polisi ieithoedd Ewropeaidd, yn rhoi crynodeb defnyddiol o sut mae Cyngor Ewrop (CE) a'r Undeb Ewropeaidd (UE) wedi arwain polisi ieithoedd Ewrop dros y 40 mlynedd diwethaf. Disgrifiant sut gellir dosbarthu'r datblygiad yn y maes yn dri chyfnod gwahanol.[8]

Penllanw'r cyfnod cyntaf (1989–2002) yw lansio CEFR a sefydlu nod arall yr UE, sef 'mamiaith + 2' (a ddatblygwyd mewn awdurdodaethau dwyieithog fel 2+1).

Mae'r ail gyfnod (2002-2015) yn ymwneud â 'the need to measure progress in the development of language competences, with language assessment as the central instrument for policy making' (ibid: 1), ac yn rhan o hyn, lansiwyd yr Arolwg Ewropeaidd ar Gymwyseddau Ieithoedd (*European Survey on Language Competences (*ESLC)) i gasglu data perthnasol.

Yn ystod yr ail gyfnod hwn, yn 2012, awgrymodd *Rethinking Education Communication: Language competences for employability, mobility and growth* fod meincnod Ewropeaidd yn cael ei greu i fonitro datblygiad cymwyseddau ieithoedd yn yr UE; roedd hyn yn cynnwys dau nod:

- erbyn 2020, dylai o leiaf 50% o rai 15 oed gyrraedd lefel defnyddiwr annibynnol mewn iaith dramor gyntaf (o'i gymharu â'r 42% sy'n gwneud hynny ar hyn o bryd)
- erbyn 2020, dylai o leiaf 75% o'r disgyblion sydd yn nosbarthiadau isaf addysg uwchradd astudio o leiaf ddwy iaith dramor (o'i gymharu â'r 61% sy'n gwneud ar hyn o bryd)[9]

Mae'r trydydd cyfnod (sy'n dechrau yn 2015) yn gweld symud tuag at hyrwyddo ymagweddau integredig tuag at ddysgu, addysgu ac asesu, ac yn 2015, lansiodd CE dair astudiaeth:

i. trosolwg o brofion iaith cenedlaethol ledled Ewrop (gan Rwydwaith Eurydice yr UE)
ii. asesiad o gymharedd canlyniadau'r profion iaith cenedlaethol hyn (gan Cambridge English Language Assessment gyda chymorth aelodau ALTE)
iii. archwilio'r berthynas rhwng cymwyseddau iaith a chyflogadwyedd ar draws Aelod-wladwriaethau'r UE (gan y Ganolfan ar gyfer Ymchwil i Addysg a Dysgu Gydol Oes: CRELL).

(I gael rhagor o fanylion, gweler Gutierrez Eugenio a Saville, 2017: 4-5.)

Yn gryno, daeth y gwaith hwn i'r casgliad oherwydd yr amrywiaeth eang mewn systemau asesu ieithoedd ledled Ewrop ac yn y ffordd y cyflwynir canlyniadau, ei bod hi bron yn amhosibl cymharu'n ystyrlon. O ganlyniad i gydnabod hyn, digwyddodd 'an important shift from measuring progress in language competences to facilitating the development of students' language-learning skills' (ibid., 5).

Gan ganolbwyntio ar hyn, mae awduron yr adolygiad polisi'n nodi sut dangosodd yr Arolwg Ewropeaidd ar Gymwyseddau Ieithoedd 'language learning at school is not providing students with the language skills needed. The focus in most language education across European schools remains on aspects that are either too difficult or not useful, which negatively affects learners' motivation' (ibid., 6). Yna tynnant sylw at gysyniad 'linguistic repertoires' (ibid., 6), a nodant fod hyn yn 'especially useful since it does not focus on mastering isolated languages, but rather on developing

[8] Er ei fod y tu hwnt i gwmpas uniongyrchol yr adolygiad hwn, mae papur polisi cysylltiedig diddorol, a gyhoeddwyd yn 2017 hefyd, yn nodi tueddiadau mewn dysgu ieithoedd tramor mewn ysgolion cynradd; gweler Myles. 2017. Trends in Learning Foreign Languages in Primary Schools. [AR-LEIN] Ar gael yn: http://www.meits.org/. [Cyrchwyd ym mis Awst 17].
[9] Europa. 2012. Rethinking Education: Language competences for employability, mobility and growth. T. 5 [AR-LEIN] Ar gael yn: http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:52012SC0372&rid=1. [Cyrchwyd ym mis Awst 2017.]

different levels of ability in a number of languages which are used in different spheres of life and for different purposes' (ibid., 6).

Gwelant fod angen i wneuthurwyr polisi yn Ewrop groesawu 'multilingualism agendas aimed at changing attitudes and behaviours towards language learning' (ibid., 6) a gwelant fod gan adnoddau dysgu digidol rôl er mwyn 'enable the breaking down of barriers between school and language learning, and have a unique potential to connect what happens in language classrooms with learners' everyday realities'. (Gutierrez Eugenio a Saville, 2017, 6).

Mae'r trosolwg o'r polisïau'n dod i ben drwy nodi sut, yn y cyd-destun hwn, 'language assessment can play an important role by facilitating learning more effectively, especially if it is appropriately built into the learning tools to monitor progression and to provide relevant and timely feedback' (ibid.).

Fodd bynnag, mewn cyhoeddiad pwysig gan Gyngor Ewrop o dan y teitl: *Guide for the Development and implementation of curricula for plurilingual and intercultural education*, er ei fod hefyd yn hybu'r angen am ddiwygio sut addysgir ieithoedd mewn ysgolion ac yn pwysleisio'r angen am nodi lle mae ieithoedd yn cydgyfeirio, gwêl sut dylai asesu symud o fynegi 'lefelau' cyrhaeddiad i nodi 'proffiliau cymhwysedd'. O hyn mae'n egluro:

> Summative or certification assessment is possible, using stringent methods, but most assessment will be formative, and emphasise self-assessment. It may be based on exercises which are aimed at a specific language, but can highlight cross-cutting competences when similar tests are used in different languages or the ability of learners to switch between languages in an appropriate manner is mobilized (Beacco et al, 2016b, 10).

Datblyga'r achos dros addysg luosieithog (*plurilingual*) ac eglura sut dylai prif iaith yr addysg gael ei chysylltu'n nes â'r ieithoedd tramor a addysgir. Dadleua na ddylai hyn fod yn unig oherwydd y ddealltwriaeth ryngddiwylliannol sy'n dod hefyd, ond yn ogystal oherwydd y ffordd y mae'n datblygu 'linguistic reflexivity' sy'n gwella dealltwriaeth disgyblion o iaith. Mae hyn yn ganlyniad i'r ffordd 'the decentring process brings out the workings of the different languages by contrast' (ibid., 11).

Datblygir y pwynt am rôl iaith fel cyfrwng i gael dealltwriaeth ryngddiwylliannol mewn sawl cylch. Mae papur adolygu polisi Gutierrez Eugenio a Saville yn nodi hefyd sut mae'r UE a Chyngor Ewrop yn ystyried bod ieithoedd yn llawer mwy na mater addysgol, a'u bod yn eu gweld yn 'a transversal skill with relevance to many objectives, such as social integration, employment, mobility or minority rights' (2017: 6), gan dynnu sylw at sut mae Cyngor Ewrop yn 'promotes linguistic diversity and language learning as a way to achieve greater unity among European citizens' (ibid., 2).

Sonnir llawer am hyn mewn cyhoeddiad buddiol arall gan Gyngor Ewrop, *A Handbook for Curriculum Development and Teacher Training, The Language Dimension in all Subjects* (Beacco et al, 2016a). Tynna sylw at yr angen am addysgu 'language-senstitive' (addysgu sy'n sensitif i iaith) ac yn esbonio'n ymarferol y cysylltiadau rhwng addysgu ieithoedd a hyrwyddo 'social inclusion, social cohesion, equity and respect for diversity' (ibid., 113). Geilw am ailystyried sut caiff addysgu ieithoedd ei lunio, ac â rhagddo i ddweud 'language education should always embrace diversity and plurilingualism, respecting, but also seeking to extend, the language repertoires that pupils bring to school' (ibid.).

**CYMRU**

Yn ystod haf 2016, wrth gyhoeddi ei dogfen ymgynghori ar strategaeth i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mabwysiadodd polisi Llywodraeth Cymru safbwynt hyrwyddo mwy amlwg tuag at y Gymraeg, yn hytrach na safbwynt diogelu. Wrth ymchwilio ar gyfer y trosolwg hwn, nid oedd canfyddiadau'r ymgynghoriad hwnnw'n hysbys. Serch hynny, roedd hi'n amlwg y byddai gan y system addysg ran amlwg i'w chwarae er mwyn gwireddu uchelgais y llywodraeth, o gofio y cydnabyddir ers tro nad yw'r dulliau traddodiadol o drosglwyddo'r iaith rhwng cenedlaethau'n unig yn mynd i fod yn ddigon i greu cynnydd arwyddocaol yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg.

Erbyn i'r trosolwg hwn gael ei ryddhau, mae strategaeth Llywodraeth Cymru wedi'i chyhoeddi ac, fel y rhagwelwyd, mae addysg yn chwarae rôl amlwg ynddi (LlC 1, 2017; LlC 2, 2017).

Dylanwadwyd ar y strategaeth gan adroddiad 2013 *Un Iaith i Bawb/One Language for All* (LlC, 2013) a oedd yn dangos gwendid y system addysg gyfredol o ran cynhyrchu siaradwyr Cymraeg hyderus a rhugl. Y tu hwnt i ysgolion cyfrwng Cymraeg, er gwaethaf ymdrechion glew athrawon (a llwyddiant eithriadol rhai ohonynt), a siarad yn gyffredinol, canfuwyd mai ychydig iawn o'r disgyblion 16 oed hynny sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n gwneud cynnydd da tuag at ddod yn siaradwyr Cymraeg rhugl (ibid., 17). Mae hyn wedi arwain at anghydraddoldeb gan mai disgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn unig sy'n gallu bod yn siŵr y byddant yn dod yn siaradwyr rhugl dwy iaith swyddogol Cymru.

Argymhelliad amlwg (Argymhelliad 6) o adroddiad *Un Iaith i Bawb/One Language for All* oedd y dylid dileu'r cysyniad o ddau 'fath' o Gymraeg a mabwysiadu dull mwy unedig, gydag un continwwm i'r Gymraeg ac 'o ganlyniad byddai'r elfen Cymraeg ail iaith yn y rhaglen astudio Cymraeg yn cael ei disodli ynghyd â'r term Cymraeg ail iaith' (ibid., 25-26).

Gyda chyhoeddi'r manylebau TGAU newydd yn 2016, a pharhad y ddau ddewis 'Cymraeg' a 'Chymraeg Ail Iaith' (er eu bod wedi'u diwygio), cafwyd galwad o'r newydd am ymagwedd un 'continwwm' at asesu Cymraeg; (er nad oes eto ddiffiniad eglur o'r hyn a olygir gan y term hwn).

Fodd bynnag, nid yw arholiadau TGAU a dulliau asesu eraill yn bodoli mewn gwagle. Maent yn mynd law yn llaw ag addysgeg a chynnwys cwricwlwm. Mae'r dulliau asesu, addysgu a dysgu'n dylanwadu ar ei gilydd, ac o newid un, bydd rhaid gwneud newidiadau i'r lleill.

O ran datblygu'r cwricwlwm, yn ystod 2016 bu ysgolion wrthi'n gweithredu goblygiadau'r adolygiad a wnaed gan yr Athro Graham Donaldson a gyhoeddwyd yn *Dyfodol Llwyddiannus* ac wedyn yn *Cwricwlwm i Gymru, Cwricwlwm am Oes*. (LLC 1, 2015; LLC 2, 2015).

O ran 'ieithoedd', mae'r dogfennau hyn i ddiwygio'r cwricwlwm yn arwyddocaol. Mae *Dyfodol Llwyddiannus* yn cynnig fel un o'i chwe 'Maes Dysgu a Phrofiad' fod 'Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu' yn cael eu gosod gyda'i gilydd. Mae hyn o bwys ac yn dangos newid a all fod yn un radical. Mae mynnu rhestru'r tair elfen ar wahân fel hyn, 'ieithoedd', 'llythrennedd' a 'cyfathrebu', yn tynnu sylw at y gwahaniaeth rhyngddynt, ac yn agor y drws at ymagwedd fwy creadigol o ran sut gallai'r rhain gael eu cyflwyno - a'u hasesu - mewn ysgolion.[10]

[10] Mae gwahanu ieithoedd oddi wrth y ddwy elfen arall yn awgrymu'r posibilrwydd o ddeall 'iaith' fel gwyddor neu set resymol o reolau. Hefyd mae'n cynnig y posibilrwydd o edrych ar iaith fel cyfrwng sy'n datblygu ymdeimlad o berthyn a hunaniaeth drwy ei mynegiant creadigol ar ffurf cystrawen idiosyncratig a chysyniadau unigryw.

At hynny, mae'r lluosog – '**<u>ieithoedd</u>**' – yn dangos sut bydd angen i ysgolion ailystyried yn y dyfodol y dull 'seilo' traddodiadol lle caiff Cymraeg, Saesneg ac ITM eu trin fel pynciau hollol ar wahân, sydd efallai'n dangos eto fod angen dulliau addysgu a mecanweithiau asesu newydd.

Cyhoeddiadau arwyddocaol eraill yn y blynyddoedd diweddar o ran datblygu ieithoedd yng Nghymru yw cyhoeddiad Llywodraeth Cymru *Dyfodol byd-eang: Cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru 2015–2020*, (LlC 3, 2015), Adroddiad Estyn yn 2016 *Ieithoedd Tramor Modern yng Nghymru,* ac adroddiad y Cyngor Prydeinig yn 2016 *Tueddiadau Ieithoedd Cymru*, y mae pob un ohonynt yn cyfeirio at yr angen am ddiwygio addysgu ieithoedd (yn yr achosion hyn, Ieithoedd Tramor Modern) yng Nghymru ac am newid y modelau cyflwyno ieithoedd mewn ysgolion yng Nghymru.

---

Gwelwn felly mai yn erbyn cefndir o newid polisi, un sydd wedi galw am ymagwedd newydd tuag at sut rydym yn deall iaith, ac o hynny, sut caiff ieithoedd eu haddysgu a'u hasesu, mewn cyd-destun ehangach yn Ewrop ac mewn cyd-destun penodol yng Nghymru, y mae'r tîm ymchwilio wedi ymateb i dendr Cymwysterau Cymru i lunio'r arolwg hwn.

Er y cydnabyddir uchod sut mae addysgeg, cynnwys y cwricwlwm ac asesu'n dylanwadu ar ei gilydd, mae'r tîm ymchwilio o'r farn ei bod hi'n deg honni, yn y system addysg sydd ohoni yng Nghymru, lle rhoddir cymaint o bwyslais ar fesur ysgolion yn erbyn perfformiad mewn canlyniadau arholiadau, o'r tri ffactor hyn, fod gan asesu botensial arbennig o gryf i ysgogi newid.

# ADRAN 5.
# GWLAD Y BASG

## ADRAN 5. GWLAD Y BASG

Mae Gwlad y Basg yn cynnwys saith rhanbarth; tri yn Ffrainc a phedwar yn Sbaen. O'r pedwar yn Sbaen, mae Bizkaia, Gipuzkoa ac Araba yn ffurfio cymuned ymreolaethol y Basgiaid, lle mae'r Fasgeg yn iaith swyddogol ar y cyd, ond siaredir Basgeg yn Navarra hefyd. At ddiben yr ymchwil hwn, mae 'Gwlad y Basg' yn cyfeirio'n bennaf at y gymuned ymreolaethol yn Sbaen. O ran y Fasgeg yn Sbaen, mae 33.9% o boblogaeth cymuned ymreolaethol Gwlad y Basg yn siarad Basgeg (van Dongera, van der Meer a Sterk, 2017: 53) ac oddeutu 10% o boblogaeth Navarra.

### i. Cyd-destun yr addysg ac arbenigedd yr athrawon

Yng Ngwlad y Basg, gall disgyblion ddechrau'r ysgol yn 3 blwydd oed a gorffen yn 18 mlwydd oed. Mae addysg yn orfodol rhwng 6 a 16 oed. Mae'r rhai sy'n ymadael â’r ysgol yn 16 oed yn mynd â thystysgrif ganddynt sy'n rhestru'r cyrsiau (nid yr arholiadau) y maent wedi ‘llwyddo’ ynddynt. Ni nodir unrhyw farciau. Ni sefir unrhyw arholiadau allanol.

Mae ysgolion wedi'u dosbarthu'n ysgolion model A, model B a model D yn ôl iaith yr addysgu.

- Yn yr ysgolion model A, mae'r addysg drwy gyfrwng y Sbaeneg yn llwyr. Addysgir Basgeg am 3 awr yr wythnos, lle (yn ôl rhai) bernir bod y trosglwyddo iaith yn anfoddhaol.
- Yn yr ysgolion model B, yn ogystal â chael addysg mewn Basgeg fel pwnc, addysgir rhwng 30% a 40% o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Fasgeg.
- Yn yr ysgolion model D, mae'r addysg drwy gyfrwng y Fasgeg yn gyfan gwbl gyda Sbaeneg yn cael ei haddysgu fel pwnc gorfodol.

Dylid nodi ei bod hi'n ymddangos bod yr ysgolion model A yn mynd yn llai poblogaidd wrth i fwy a mwy o rieni a disgyblion ddewis ysgolion model B ac yn enwedig ysgolion model D lle mae Basgeg yn fwy amlwg ac felly lle mae'r trosglwyddo iaith yn fwy llwyddiannus.[11]

Gall myfyrwyr aros yn yr ysgol tan y byddant yn 18 oed, a gallant astudio am yr hyn a elwir yn gyffredinol yn dystysgrif *Selectividad*, sef arholiad mynediad y prifysgolion. Mae dwy ran iddi, y rhan ‘gyffredin’ gyda phynciau ‘craidd’ (sy'n cynnwys elfen Fasgeg), a'r rhan ‘benodol’ lle gall myfyrwyr ddewis o amrywiaeth o bynciau penodol. Cyfleuir y marciau terfynol am bob rhan fel un sgôr wedi'i gyfuno, yn seiliedig ar gyfartaledd y sgoriau a gyflawnwyd ar raddfa o 0–10. Er mwyn i fyfyriwr gael ei dderbyn i brifysgol, mae'r marciau wedi'u pwysoli, rhoddir 60% i'r elfennau pwnc-penodol a 40% i'r rhan gyffredinol, a rhoddir ystyriaeth bellach i farciau'r pynciau sy'n gysylltiedig â'r cwrs prifysgol o dan sylw.

Ar ddechrau'r 1980au, sefydlodd Llywodraeth Gwlad y Basg amrywiaeth o gyrsiau Basgeg dwys i athrawon a oedd wrthi’n addysgu. Roedd y rhain yn amrywio o gyrsiau amser llawn i gyrsiau rhan amser. Wrth iddo ysgrifennu ei astudiaeth, *Language Policy for Basque Education*, roedd hi'n bosibl i Nicholas Gardner yn 2002 ddweud y gallai athrawon gael eu rhyddhau ar gyflog llawn am gyfnod o hyd at dair blynedd. Er nad yw hyn yn wir bellach, mae athrawon yn dal i allu mynychu cyrsiau diweddaru Basgeg sy'n para tair i bedair wythnos a gynigir gan *IRALE* (Irakasleen Euskarazko Pretakuntza Zerbitzua, yr asiantaeth i hyrwyddo llythrennedd athrawon a chymhwysedd Basgeg). Ar ôl hwnnw maent yn parhau am ddau fis arall yn paratoi deunydd addysgu (van Dongera, van der

[11] I gael rhagor o wybodaeth gweler http://www.eustat.eus/elementos/ele0008400/not0008480_c.html#axzz2gUMlAdfU

Meer a Sterk, 2017: 30). Mae lefel y cymhwysedd Basgeg sy'n ofynnol gan athrawon yn dibynnu ar y swydd ac mae'n amrywio o'r cynradd i'r uwchradd. Mae disgrifiadau swydd, fel mater o drefn, yn cynnwys y proffil iaith sydd ei angen. O edrych yn sydyn ar y swyddi gwag yn y blynyddoedd diweddar, y gofyniad mwyaf cyffredin fu'r *Perfil Lingüístico 2* (cyf: 'Proffil Iaith 2'; gweler iii isod); mae pob swydd wag yn gofyn o leiaf am y *Perfil Lingüístico 1* (cyf: 'Proffil Iaith 1'; gweler iii isod). Y cymhwyster safon aur yw'r EGA (gweler iii isod). Noder bod y *Perfiles Lingüísticos* 1 a 2 i'r proffesiwn addysgu o safon uwch na'r rhai arferol (gweler iii isod a Thabl 2).

## ii. Addysgu a dysgu ieithoedd, ymagweddau a dulliau

Yn gyffredinol yn y gwersi iaith ar lefel uwchradd, mae'r addysgu'n gogwyddo at ramadeg a llenyddiaeth. Mae Sbaeneg ar lefel *Selectividad* yn rhoi pwyslais ar wneud sylwadau ar destunau a'u dadansoddi gyda pheth gwerthfawrogi a dadansoddi testunau llenyddol.

Fodd bynnag, datblygiad diddorol o ran addysgu ieithoedd yng Ngwlad y Basg yw'r gefnogaeth gynyddol a roddir i ddull CLIL. Mae ysgolion *Ikastola* model D wedi ei fabwysiadu'n frwd er mwyn rhoi rhuglder mewn trydedd iaith i ddisgyblion.[12] Gwelwyd ei fod yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol o ran cynhyrchu siaradwyr tairieithog, sef Basgeg, Sbaeneg a Saesneg.

Mae prosiect CLIL yn yr ysgolion model D *Ikastola* yn system sydd wedi'i chynllunio'n ofalus. Mae'r goblygiadau o ran amserlennu, hyfforddiant ac adnoddau dosbarth wedi'u hystyried a'u cymhwyso i raddau amrywiol o'r grwpiau blwyddyn ieuengaf i'r hynaf, yn bennaf er mwyn cynyddu cymhwysedd disgyblion yn Saesneg. Addysgir Saesneg iddynt fel pwnc, ond maent yn cael mwy o gyswllt â'r Saesneg drwy amrywiaeth o bynciau a addysgir drwy gyfrwng y Saesneg. Cyflogir tîm o addysgwyr neilltuol i ddatblygu deunyddiau i roi cymorth i athrawon ac ysgolion fel bod dull CLIL yn bosibl. Fel sy'n wir am fodel y Ffindir (gweler Adran 6ii isod), ystyrir diddordebau unigol disgyblion wrth ddatblygu cynnwys ar gyfer dysgu iaith.

Er nad oes elfen lafar i'r arholiad allanol Saesneg (mae'n debyg fod hyn oherwydd ystyriaethau ymarferol a chyllidol), mae'r dull CLIL gyda Saesneg yn yr ysgolion model D yn sicrhau bod disgyblion yn cael digon o ymarfer (ac felly digon o hyder) wrth siarad Saesneg.

D.S. Hefyd addysgir Sbaeneg fel pwnc i ddisgyblion yn ysgolion model D *Ikastola*, nid yw hyn yn rhan o ddull CLIL gan y credir bod disgyblion yn cael digon o gyswllt â'r Sbaeneg oherwydd mai drwy'r iaith honno mae cymaint o fywydau allgyrsiol y disgyblion.

Er mai cyfrifoldeb ysgolion yn y system addysg orfodol yw addysgu Basgeg i rai o dan 16 oed, gall rhai dros 16 oed ac oedolion gael mynediad at hyfforddiant Basgeg drwy ysgolion Basgeg y llywodraeth, y *Euskaltegiak*, sy'n arwain at gynnydd drwy'r *Perfiles Lingüísticos* (gweler iii isod). Y *Helduen Alfabetatze eta Berreuskalduntzerako Erakundea*, (HABE, cyf: Mudiad dros Lythrennedd ac 'Ail-fasgegoli' Oedolion) yw'r corff sy'n gyfrifol am hyn. Mae ganddo rwydwaith o 44 *euskaltegis* trefol, wedi'u rhedeg gan y cynghorau lleol. Yn ogystal â'r rhain, mae 'ysgolion iaith swyddogol' sy'n gysylltiedig â'r Adrannau Addysg (14 yng Ngwlad y Basg Ymreolaethol ac 1 yn Navarra). Mae'r ddau fath hyn o ysgolion yn 'cynnig opsiynau dysgu yn y dosbarth a hunanddysgu'.[13]

---

[12] I gael rhagor o wybodaeth, gweler: http://www.ikastola.eus/.

[13] Etxepare. Dim dyddiad. Learn Basque [ONLINE] Ar gael ar: http://www.etxepare.eus/en/learn-basque. [Cyrchwyd ym mis Awst 2017].

Mae cwricwlwm y *Euskaltegiak* yn canolbwyntio ar gymhwysedd cyfathrebol; mae'n tanlinellu rôl y siaradwr (y dysgwr iaith yn yr achos hwn) fel cyfrwng cymdeithasol a rôl iaith fel adnodd dynamig. Y berthynas rhwng y testun (yr iaith a gynhyrchir/sydd ei hangen) a'r 'cyd-destun' (yr amgylchiadau lle cynhyrchir yr iaith/lle mae ei hangen) sy'n gyrru'r gwersi. Cydnabyddir ei bod hi'n amhosibl cwmpasu pob testun a chyd-destun posibl a dichonadwy mewn unrhyw ystafell ddosbarth, felly disgrifir mai'r nod yw creu siaradwyr annibynnol sydd â strategaethau i'w galluogi i gyfathrebu yn yr iaith newydd. Cyflwynir y cwricwlwm drwy gyfryngau cymysg, gan gynnwys wyneb yn wyneb, addysgu rhyngweithiol yn yr ystafell ddosbarth, arweiniad drwy lyfrau cwrs a dysgu annibynnol. [14] Mae'n cydredeg yn agos â CEFR, gyda lefel 1 yn cyfateb i B1 CEFR, lefel 2 i B2 CEFR, lefel 3 i C1 CEFR a lefel 4 i C2 CEFR. Mae Tabl 11 yn Atodiad 9 yn nodi'r oriau dysgu (o dan arweiniad ac annibynnol) a awgrymir i bob lefel.

Asesir pob lefel yn ôl cymhwysedd o ran datblygiad digonol a chywir y weithred gyfathrebol; bydd hyn yn cynnwys: dealltwriaeth; cywair; cydlynu syniadau; sgiliau trefniadol; cysylltu a chydlynu wrth sgwrsio; patrymau pwyslais a goslef mewn iaith; gramadeg; geirfa; atalnodi a sillafu.[15]

**iii. Asesu ieithoedd**

*Selectividad*

- nid yw'r arholiad iaith Sbaeneg sy'n rhan o'r *Selectividad* yn cyfateb yn swyddogol i unrhyw raddfa gynnydd fel CEFR.
- gellir cymharu'r arholiad Basgeg ar lefel *Selectividad* â lefel B2 CEFR ac mae'n asesu sgiliau 'darllen' ac 'ysgrifennu' ond dim sgiliau llafar/gwrando.
- nid yw'r arholiad Saesneg ar lefel *Selectividad* yn cynnwys sgiliau llafar/gwrando chwaith ac nid oes unrhyw radd CEFR wedi'i phriodoli iddo.

*Perfiles Lingüísticos* (PL): cyfres o arholiadau 'Proffiliau Iaith'

Y tu allan i'r system yn yr ysgolion, cynigir cyfres gyfochrog o arholiadau iaith Basgeg i holl ddinasyddion gwlad y Basg. Gelwir y rhain yn *Perfiles Lingüísticos* (PL) y gellir, fel yr eglurwyd eisoes, eu cyfieithu fel 'Proffiliau Iaith' ac fe'u rhedir gan y 'rhanbarth dinesig' (sy'n cyfateb i'r cyngor tref neu'r awdurdod lleol). Caiff yr arholiadau hyn eu sefyll yn wirfoddol. A siarad yn gyffredinol, mae PL1 (Proffil Iaith 1) yn cyfateb i B1 CEFR, ac mae PL2 yn cyfateb i B2 CEFR. Rhoddir arian i bob rhanbarth dinesig i baratoi myfyrwyr at yr arholiadau hyn ac i'w gweinyddu. Maent yn rhedeg ar adegau penodol o'r flwyddyn (fel arfer ym mis Tachwedd a mis Mehefin) ac mae myfyrwyr yn talu ffi fach (at y cymhorthdal mawr sydd i'r cynllun) i'w sefyll.

*Euskerra Gaitasuna Aguira* (EGA): Tystysgrif Cymhwysedd Basgeg

Fodd bynnag, yr arholiad Basgeg mwyaf arwyddocaol yw'r *Euskerra Gaitasuna Aguira* (EGA) (Tystysgrif Cymhwysedd Basgeg). Yn wreiddiol, bwriadwyd i hwn gyrraedd lefel C2 CEFR, ond yn gyffredinol fe'i hystyrir yn nes at C1 CEFR. Y rhanbarth dinesig sy'n ei redeg ac mae ar gael i bob un o ddinasyddion Gwlad y Basg. Mae'n hanfodol cael yr EGA ar gyfer unrhyw waith proffesiynol ar lefel 'swyddog' (e.e. y gwasanaeth sifil). Ar gyfer yr arholiad hwn, chewch chi ddim mynd ymlaen i sefyll yr arholiad gwrando/llafar heb ichi fod wedi llwyddo'n gyntaf yn yr elfen darllen/ysgrifennu.

[14] I gael rhagor o wybodaeth, gweler: www.habe.euskadi.eus.
[15] Laadministracionaldia. 2017. Language Assessment. [AR-LEIN] Ar gael yn: http://laadministracionaldia.inap.es/noticia.asp?id=1143650. [Cyrchwyd ym mis Awst 2017].

Noder bod y *Perfil Lingüístico 4* (PL4), yn gymhwyster hyd yn oed yn uwch na'r EGA, a bod ei angen ar gyfer rhai proffesiynau (gweler isod).

<u>Dilyniant</u>

Fel yr esboniwyd eisoes, yng Ngwlad y Basg, caiff yr arholiadau sy'n gysylltiedig â'r *Perfiles Lingüísticos* eu sefyll y tu allan i'r system addysg mewn ysgolion ac maent ar gael i bob un o ddinasyddion Gwlad y Basg beth bynnag yw ei oed. Nid yw'r arholiadau eu hunain wedi'u diffinio yn ôl oed, ond yn ôl ein cyfweliadau, nid yw myfyrwyr iau na 14 oed yn sefyll y PL1 fel arfer. Mae'r EGA yn gofyn am rywfaint o aeddfedrwydd ac fel arfer nid yw myfyrwyr iau na 18 oed yn ei sefyll.

Yn ddiddorol, gall disgybl a addysgwyd yn yr ysgolion model D (h.y. drwy gyfrwng y Fasgeg) yn y sectorau cynradd ac uwchradd hawlio'n awtomatig iddo gyrraedd cymhwysedd lefel B2 CEFR mewn Basgeg. Felly hefyd, ystyrir bod myfyriwr a addysgwyd yn y brifysgol drwy gyfrwng y Fasgeg wedi cyrraedd lefel cymhwysedd C1 CEFR. Gall myfyriwr ôl-raddedig sydd wedi ysgrifennu traethawd doethuriaeth Basgeg hawlio cymhwysedd C2 CEFR.

Fodd bynnag, ni olyga hyn nad oes rhaid i unrhyw un sy'n ymgeisio am amrywiaeth o swyddi swyddogol lwyddo yn nhystysgrif EGA. Mae angen cymhwysedd a rhuglder uwch eto ar gyfer swyddi fel meddygon a gweision sifil uchaf Sefydliad Gweinyddu Cyhoeddus Gwlad y Basg (IVAP: Instituto Vasco de la Administración Pública). Mae angen cymhwysedd C2 CEFR ar gyfer y swyddi hyn, a dyma’r lefel y mae arholiad PL4 yn ei gyrraedd.

Yng Ngwlad y Basg, nid oes arholiadau ffurfiol, gwladwriaethol ar lefel y llywodraeth ar gyfer unrhyw iaith heblaw am y Fasgeg, ac nid yw lefel ymadael cynhwysedd Sbaeneg myfyriwr ar unrhyw bwynt (*Selectividad* neu arall) yn cael ei mapio yn erbyn CEFR. Fel sydd yn Sbaen i gyd, mae llawer o brofion allanol ar gael yng Ngwlad y Basg ar gyfer Saesneg (e.e. profion Cambridge English), y mae disgyblion yn eu sefyll yn breifat. Hefyd mae ysgolion iaith swyddogol lleol, ond mae'r rhan fwyaf yn mynd drwy sianelau masnachol fel profion Cambridge English.

**TABL 2. Cymhariaeth o lefelau'r EGA, y Perfiles Lingüístico**s, HABE a CEFR.[16]

| MARCO COMÚN EUROPEO DE REFERENCIA PARA LAS LENGUAS | B 1 | B 2 | C 1 | C 2 |
|---|---|---|---|---|
| Departamento de Cultura HABE | Nivel 1 | Nivel 2 | Nivel 3 | Nivel 4 |
| HAEE - IVAP | Perfil lingüístico 1 | Perfil lingüístico 2 | Perfil lingüístico 3 | Perfil lingüístico 4 |
| Osakidetza Servicio vasco de salud | Perfil lingüístico 1 | Perfil lingüístico 2 | Perfil lingüístico 3 | Perfil lingüístico 4 |
| Ertzaintza | | PL1 Ertzaintza | PL2 Ertzaintza | |
| Departamento de Educación, Universidades e Investigación | | PL1 Docentes HLEA (Hezkuntzako Langileen Euskara Agiria) | Euskararen Gaitasun Agiria (EGA) PL2 Docentes | |
| Escuelas Oficiales de Idiomas | Tercer curso de euskera (Plan de Estudios Antiguo) Nivel Intermedio | Cuarto curso de euskera (Plan de Estudios Antiguo) Nivel Avanzado | Certificado de aptitud o 5º curso (Plan de Estudios Antiguo) Nivel de Aptitud (C1) | |
| Escuelas Oficiales de Idiomas | | | | |
| Departamento de Educación del Gobierno de Navarra | | | Euskararen Gaitasun Agiria (EGA) | |
| Euskaltzaindia | | | Certificado "D" | |
| Office Public de la Langue Basque | | | Euskararen Gaitasun Agiria (EGA) | |

**Geirfa:**

| | |
|---|---|
| Marco Común Europeo de Referencia para las lenguas: | CEFR |
| Nivel: | Lefel |
| Pérfil Lingüístico: | Proffil Iaith |
| Docentes: | Athrawon |

## iv. Nodiadau pellach

Mae'r cysyniad o ddatblygu disgyblion lluosieithog wedi cael ei gyfleu'n eglur gan *Heziberri 2020*, y cwricwlwm a'r cynllun addysgu newydd, a lansiwyd yn 2014 gan yr Adran Addysg, Polisi Iaith a Diwylliant a gaiff ei roi ar waith yn 2020.[17] Ei nod yw sicrhau bod disgyblion sy'n gadael addysg ffurfiol yn gallu cyfathrebu'n ddigonol ac yn effeithiol mewn Basgeg a Sbaeneg, o ran siarad ac ysgrifennu, a'u bod yn gallu cyfathrebu'n ddigonol mewn o leiaf un iaith arall mewn cyd-destunau personol, cymdeithasol ac academaidd. Mae'n cynnwys yn benodol addysgu llenyddiaeth o dan y pennawd hwn ac yn cwmpasu dealltwriaeth o ddatblygu amlieithrwydd fel proses sy'n cyfoethogi'n ddiwylliannol ac yn gymdeithasol lle mae ieithoedd yn rhyng-gysylltu. Felly'r nod yw datblygu repertoire amlieithog pob disgybl (ibid: 33–35).  O ran asesu, er nad yw'r cynllun yn nodi asesu ieithoedd yn benodol, mae'r duedd gyffredinol tuag at ddull ffurfiannol yn hytrach na chrynodol, lle mae'r cymwyseddau i fod i gael eu datblygu drwy 'feedback, orientation and reflection' (ibid: 45).

Yn ôl ein cyfweleion, mae ychydig o arbrofi ar hyn o bryd gyda defnyddio mwy o dechnoleg ddigidol wrth asesu ac mae'n bosibl sefyll rhannau o'r arholiadau iaith ar-lein, ond oherwydd logisteg diogelwch (amgryptiad ac ati) ar hyn o bryd, ystyrir bod hyn yn ddewis drud.

[16] HABE. 2010. Convalidaciones entre los títulos y certificados que acreditan los conocimientos de Euskera y adecuación al marco común Europeo de referencia para las lenguas. [AR-LEIN] Ar gael yn: http://www.habe.euskadi.eus/s234728/es/contenidos/informacion/tituluen_baliokidetza/es_titbalio/tituluen_baliokidetza.html. [Cyrchwyd ym mis Awst 2017].

[17] Heziberri 2020 Marco del Modelo Educativo Pedagógico. 2014. [AR-LEIN] Ar gael yn: http://www.hezkuntza.ejgv.euskadi.eus/r43573/es/contenidos/informacion/heziberri_2020/es_heziberr/adjuntos/Heziberri_2020_c.pdf. [Cyrchwyd ym mis Medi 2017]

# ADRAN 6.
# Y FFINDIR

**ADRAN 6. Y FFINDIR**

Mae gan y Ffindir, un o wledydd Sgandinafia, ddwy brif iaith swyddogol, Ffinneg a Swedeg. Mae ganddi nifer o ieithoedd lleiafrifol swyddogol eraill. Swedeg yw ail iaith swyddogol y Ffindir gyda 5.5% o'r boblogaeth yn siarad Swedeg fel iaith gyntaf (van Dongera, van der Meer a Sterk, 2017: 97).

Mae'r ieithoedd eraill, y mae hawliau eu siaradwyr wedi'u diogelu gan y gyfraith yn cynnwys Sámi, Romani, Iaith Arwyddion Ffinneg a Chareleg.[18]

**i. Cyd-destun yr addysg ac arbenigedd yr athrawon**

Mae addysg yn orfodol i rai 7–16 oed, a gall rhai 6 blwydd oed fynychu darpariaeth cyn ysgol am flwyddyn yn rhad ac am ddim. Yn 2009 roedd tua 3,200 o ddisgyblion yn mynychu darpariaeth cyn ysgol Swedeg, o gyfanswm o 57,000 o ddisgyblion (van Dongera, van der Meer a Sterk, 2017: 97). Hefyd mae darpariaeth ar gyfer addysg a gofal plentyndod cynnar sydd wedi'i llywio gan y Cwricwlwm Craidd Cenedlaethol. Mae'r ddarpariaeth 'cyn ysgol gynradd' hon yn arwain at 'addysg sylfaenol' i rai 7–16 oed; yna mae'r llwybr yn rhannu a gall disgyblion ddewis dilyn naill ai trywydd yr 'arholiad matricwleiddio' sy'n arwain at raddau prifysgol, neu drywydd y 'cymwysterau galwedigaethol' sy'n arwain at brifysgolion y gwyddorau cymwysedig.

Mae Asiantaeth Genedlaethol y Ffindir ar gyfer Addysg yn nodi'n eglur: 'The focus in education is on learning rather than testing. There are no national tests for pupils in basic education in Finland. Instead, teachers are responsible for assessment in their respective subjects on the basis of the objectives included in the curriculum'.[19]

Mae'n mynd rhagddi i egluro: 'The only national examination, the matriculation examination, is held at the end of general upper secondary education. Commonly, admission to higher education is based on the results in the matriculation examination and entrance tests'.[20]

Er nad yw'r broses i gael eich derbyn i gael 'addysg sylfaenol' yn un sy'n dethol:

> the selection of students for upper secondary school is based on their grade point average for the theoretical subjects in the basic education certificate. Entrance and aptitude tests may also be used, and students may be awarded points for hobbies and other relevant activities.[21]

Mae gan bob athro radd Meistr o'r brifysgol. Bydd athro dosbarth wedi astudio Addysg fel ei 'brif' bwnc gydag opsiwn i arbenigo mewn pwnc cwricwlwm. Bydd athro pwnc wedi astudio'r pwnc cwricwlwm fel ei 'brif' bwnc, ond bydd hefyd wedi cwblhau astudiaethau pwnc mewn Addysg. Er bod chwe blynedd gyntaf yr addysg yn cael eu darparu gan athro dosbarth fel arfer, mae ieithoedd modern yn aml yn cael eu haddysgu, hyd yn oed yn y cyfnod cynnar hwn, gan athrawon pwnc os nad

---

[18] Kotus. Institiute for the Languages of Finland. Dim dyddiad. On language. [AR-LEIN] Ar gael yn: https://www.kotus.fi/en/on_language [Cyrchwyd ym mis Medi 2017].
[19] OPH Finnish National Agency for Education. Dim dyddiad. Education System. [ONLINE] Ar gael yn: http://www.oph.fi/english/education_system. [Cyrchwyd ym mis Awst 2017].
[20] Ibid.
[21] OPH Finnish National Agency for Education. Dim dyddiad. Education System. [ONLINE] Ar gael yn: http://www.oph.fi/english/education_system/upper_secondary_education_and_training. [Cyrchwyd ym mis Awst 2017].

yw'r athro dosbarth wedi arbenigo yn yr iaith dramor. Yn ystod y tair blynedd olaf (blynyddoedd 7-9), addysgir pynciau ar wahân, gan gynnwys ieithoedd tramor, gan athrawon pwnc.

Rhoddir pwys ar addysg barhaus i athrawon, ac mae'r gwelliant ym mherfformiad disgyblion wedi'i briodoli o leiaf yn rhannol i hyn (gweler iii isod).

**ii. Addysgu a dysgu ieithoedd, ymagweddau a dulliau**

Mae elfen o hyblygrwydd o ran pryd gall disgyblion astudio eu hiaith gyntaf nad yw'n famiaith (a elwir yn LG1) yn y Ffindir, ond fel arfer mae hyn yn digwydd ym mlwyddyn 3 addysg sylfaenol pan fydd disgyblion yn 9 oed, ac fel arfer mae disgyblion yn dechrau ar eu hail iaith nad yw'n famiaith (a elwir yn LG2) ym mlynyddoedd 4 neu 5. Cyflwynir y drydedd iaith nad yw'n famiaith (a elwir yn LG3) ym mlwyddyn 6; mae'n rhaid i ddisgyblion nad ydynt wedi dewis yr iaith genedlaethol arall (Swedeg neu Ffinneg) wneud hynny ar yr adeg hon. Yn yr ysgolion cyfrwng Ffinneg, mae Swedeg yn orfodol (fel arfer mae'n dechrau ym mlwyddyn 6, yn gynharach mewn rhai ysgolion), yn yr ysgolion cyfrwng Swedeg, mae Ffinneg yn orfodol (fel arfer mae'n dechrau'n gynharach yn ystod y pedair blynedd gyntaf, gan mai hi yw'r iaith fwyafrifol yn y Ffindir).

Mae'r Cwricwlwm Craidd Cenedlaethol yn annog cynnig addysgu iaith (ieithoedd) heblaw am Ffinneg (e.e. Saesneg, iaith dramor arall a/neu Sámi) 'in connection with lessons in other subjects, as part of multidisciplinary learning modules, or during specifically allocated lessons or teaching periods' (Bwrdd Addysg Cenedlaethol y Ffindir, 2014: 13.4.2).

Mae canllawiau'r cwricwlwm yn rhoi cryn bwyslais nid yn unig ar deilwra'r addysgu iaith fel bod topigau'n cael eu dewis yn seiliedig ar ddiddordebau'r disgyblion, ond hefyd ar roi cyfleoedd i ddisgyblion wneud cynnydd unigol, gan gynnwys rhoi cymorth i'r disgyblion hynny sy'n dangos gallu i symud ymlaen yn gyflym neu rai sydd â chymhwysedd blaenorol.

Yn ystod cyfnodau cynnar yr addysg gynradd, defnyddir dull a elwir yn 'y gawod' i gyflwyno a throsglwyddo iaith drwy ganeuon, chwarae, gêmau a gweithgareddau corfforol. Ailadroddir y dull hwn yng nghamau diweddarach addysg gyda chynnwys wedi'i addasu sy'n briodol i oed.

Mae dull CLIL yn amlwg iawn, yn enwedig ym mlynyddoedd yr ysgol gynradd a gwaelod yr ysgol uwchradd, er nad yw mor gyffredin yn y blynyddoedd uwchradd uwch lle caiff ei ddefnyddio gan ychydig o athrawon arloesol ar y lefel hon (ac fel arfer yn achos Saesneg). Mae'n debygol fod hyn oherwydd y ffaith na ellir sefyll profion yn yr *Arholiad Matricwleiddio* yn yr iaith darged (Pöyhönen, 2009: 164).

Drwyddi draw, ar feithrin hyder disgyblion fel siaradwyr iaith y mae canolbwynt yr addysgu iaith yn y Ffindir. At hynny, bwriad addysgu'r ail a'r drydedd iaith yw gwella hyder disgyblion yn eu hiaith gyntaf wrth chwilio am gyfleoedd i wneud cysylltiadau rhwng ieithoedd. Mae'r ymagwedd 'integredig' hon at ddysgu ieithoedd yn datblygu'n ddull amlieithog ac amlddisgyblaethol. Hefyd, defnyddir addysgu ieithoedd i gyfoethogi canfyddiad disgyblion o amrywiaeth diwylliannol wrth drafod gwahanol ffenomena seiliedig ar werthoedd sydd wedi'u cysylltu â chymunedau iaith.

Yn yr adroddiad ar ganlyniadau 2013 ar gyfer Swedeg yn y Ffindir, mae'n werth nodi y barnwyd bod addysg barhaus i athrawon wedi gwneud cyfraniad allweddol i welliant yn lefelau perfformiad disgyblion. Yn ogystal, dangoswyd bod defnyddio dulliau addysgu dilys yn gwella llwyddiant disgyblion mewn darllen a deall. At hynny, dangoswyd: 'The more the teachers applied authentic

working methods the more their pupils enjoyed the Swedish language and found it useful' (Hildén a Rautopuro, 2014: 13).[22] Efallai nad oedd hi'n syndod darllen 'enjoyment of Swedish language and studies was related to the number of opportunities teachers offered during lessons for spoken and written communication and planning and assessing learning: the more opportunities offered, the better the pupils liked the Swedish language' (ibid., 14).

O'r adroddiad cyfatebol ar ganlyniadau 2013 ar gyfer Saesneg, mae'n werth nodi bod y ffactorau a restrwyd fel rhai a oedd yn dylanwadu ar berfformiad disgyblion yn cynnwys 'an interest in the English language outside school (for example, listening to music, watching films and video clips, joining in online discussion forums) and the perceived usefulness of the English language' (Härmälä, Huhtanen, a Puukko, 2014: 12). Fodd bynnag mewn cyferbyniad, mae'r adroddiad yn nodi 'a clear connection could not be established between the frequency of practices used during English lessons that promote learning (such as ICT, self-assessment, recording of spoken exercises) and the language learning outcomes' (ibid.). Mae'n mynd rhagddo i ddweud na fu i 'regular home study' 'affect the results to any significant degree' (ibid.).

**<u>iii. Asesu ieithoedd</u>**

Gwelwyd eisoes sut mae Asiantaeth Genedlaethol y Ffindir ar gyfer Addysg yn rhoi pwyslais ar 'ddysgu' yn hytrach na 'phrofi', felly nid yw'n syndod canfod y bu newid yn y system addysg yn y Ffindir ar y cyfan, o'r dull traddodiadol, sef asesu gan gyfeirio at y norm i raddio sy'n seiliedig ar feini prawf. Gan fod y pwyslais ar asesu ffurfiannol ac ar adborth unigol, mae hyn yn dod yn elfen greiddiol o'r arferion addysgu a dysgu o ddydd i ddydd. Rhoddir adborth yn rhan o'r addysgu ac mae gofyn i athrawon greu sefyllfaoedd lle 'feedback that promotes and motivates learning is given and received through joint discussions' (Bwrdd Addysg Cenedlaethol y Ffindir, 2014: 6.4.1). Mae'r athro'n rhoi sylw penodol i'r 'amcanion cymhwysedd'/'*competence objectives*' sy'n chwarae rôl allweddol ar gyfer proses ddysgu'r disgybl.[23] O ran gallu ieithyddol, mae hyn yn canolbwyntio'n fwy arbennig ar sgiliau wrth holi cwestiynau a gwrando yn ogystal â sgiliau rhyngweithio a sgiliau mynegi eich hun mewn gwahanol ffyrdd (ibid: 6.4.4).

Gwelir elfen grynodol ar ddiwedd y broses ddysgu; rhoddir gwybod i'r disgyblion beth yw'r canlyniadau mewn adroddiadau, tystysgrifau neu nodiadau asesu; ac yn ôl y Gorchymyn Addysg Sylfaenol mae'n ofynnol darparu adroddiad ysgol diwedd blwyddyn (ibid ., 6.4.2).

Ers dechrau'r 2000au, defnyddiwyd graddfa'n seiliedig ar y CEFR ar gyfer addysgu, dysgu, asesu a gosod targedau ieithoedd, sy'n golygu bod y targedau wedi'u diffinio o ran 'levels of proficiency instead of lists of descriptors or descriptive texts about the nature of the language skills and use of language' (Huhta, 2015: 266–301).[24]

[22] h.y. gwersi wedi'u seilio ar ddefnyddio deunyddiau dilys, sydd wedi'u llunio i siaradwyr brodorol (L1); h.y. testunau 'go iawn', wedi'u llunio nid i fyfyrwyr ieithoedd, ond i siaradwyr brodorol yr iaith.

[23] Ar gyfer diffiniad gweithio UNESCO o 'Gymwyseddau Ardraws', gweler Adran 2vi.

[24] Mae Ari Huhta o Brifysgol Jyväskylä, y Ffindir (a chyfwelai yn yr astudiaeth hon) wedi ysgrifennu astudiaeth bwysig o'r enw *Using the Common European Framework of Reference in the evaluation of educational achievement in foreign and second languages*. Mae'n dangos sut mae CEFR yn golygu bod modd cymharu'n ystyrlon ganlyniadau o wahanol 'studies of language proficiency, such as the European and the Finnish evaluation studies, because of the transparent, criterion-referenced nature of that Framework'. Nid yw'r astudiaeth wedi'i chyhoeddi eto, er bod cyflwyniad ppt. (2015) ar gael ar-lein – gweler y llyfryddiaeth i gael y cyfeiriad llawn.

Awgrymodd ein cyfweliadau fod y newid arfer hwn, ynghyd â'r angen am gyfuno lefelau hyfedredd â'r graddio traddodiadol wedi bod yn heriol i athrawon. Yn yr *Arholiad Matricwleiddio*, mae'r graddio'n dal i gyfeirio at y norm, ac mae dosbarthiad y 13 gradd wahanol yn parhau i fod yr un fath ar draws gwahanol bynciau ac arholiadau.

Yn unol â'r bwriad gwreiddiol o addasu CEFR i weddu i'r cyd-destunau iaith penodol lle mae'n gweithredu, mae'n werth nodi bod y fframwaith yn y Ffindir wedi'i addasu fel y rhestrir isod:

A1.1 First stage of elementary proficiency
A1.2 Developing elemental proficiency
A1.3 Functional elementary proficiency
A2.1 First stage of basic proficiency
A2.2 Developing basic proficiency
B1.1 Functional basic proficiency
B1.2 Fluent basic proficiency
B2.1 First stage of independent proficiency
B2.2 Functional independent proficiency

Mae lefelau hyfedredd disgyblion 15 oed wedi'u nodi yn y tabl yn Atodiad 3 (Tabl 6), lle mae'r amser addysgu a bennir wedi'i restru hefyd. (I weld sut mae rhai o'r lefelau CEFR a gyrhaeddir mewn Saesneg gan ddisgyblion o wledydd Sgandinafia yn cymharu â chyfartaledd yr UE gweler Atodiad 3, Tabl 7).

Yn y Ffindir, mae cwricwla, dulliau asesu a disgwyliadau gwahanol i'r ieithoedd a astudir fel mamiaith, iaith 1$^{af}$ neu 2$^{il}$ iaith nad yw'n famiaith (gan gynnwys Ffinneg a Swedeg), fel y gwelir yn y Cwricwlwm Craidd Cenedlaethol ar gyfer Addysg Sylfaenol. (Mae hyn yn cyferbynnu â'r cwricwlwm, y dulliau asesu a'r disgwyliadau ar gyfer Saesneg yng Nghymru, sydd yr un fath mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Saesneg.)

Yn y Ffindir, mae'r nodau ar gyfer Saesneg fel iaith nad yw'n famiaith yn uwch na'r rhai ar gyfer unrhyw ieithoedd eraill nad ydynt yn famiaith. Eglurir hyn 'by the fact that informal learning – media and popular culture – is significantly supporting formal learning' (Pöyhönen, 2009: 157). Dylid nodi hefyd fod y nodau ar gyfer Ffinneg fel LG1 neu LG2 yn uwch na'r rhai ar gyfer Swedeg, a thybir bod hyn oherwydd mai Ffinneg sydd â'r rôl amlycaf yn y gymdeithas (ibid.).

Mae'r adroddiad ar ganlyniadau 2013 ar gyfer Saesneg yn awgrymu y disgwylir lefel wahanol o gymhwysedd ar draws y pedwar sgìl, ond y dylid ystyried codi'r targedau ar gyfer cynhyrchu iaith yn y dyfodol (h.y. 'siarad ac ysgrifennu'), er mwyn cysoni 'the level of good proficiency across the skill set' (Härmälä, Huhtanen a Puukko, 2014: 13).

**iv. Nodiadau pellach**

Dangosodd ein cyfweliadau nad oes pwyslais penodol ar rôl technoleg ddigidol wrth asesu sgiliau iaith yn y Ffindir. Fodd bynnag, mae gwaith ar y gweill i roi'r *Arholiad Matricwleiddio* cyfan ar gyfrifiadur erbyn diwedd y 2010au, er nad yw hyn wedi'i gyflawni eto.

# ADRAN 7.
# FRYSLÂN

## ADRAN 7. FRYSLÂN

Rhanbarth yng ngogledd orllewin yr Iseldiroedd yw Fryslân (hefyd Freisland neu Frisia). Mae ganddo boblogaeth o ryw 650,000. Ffriseg yw'r ail iaith swyddogol ar ôl Iseldireg. Mae tua 67% o'r boblogaeth yn siarad Ffriseg yn gymharol dda, mae tua 97% yn ei deall a gall tua 15% ei hysgrifennu'n dda (van Dongera, van der Meer a Sterk, 2017: 57).

### i. Cyd-destun yr addysg ac arbenigedd yr athrawon

Yn yr Iseldiroedd, mae disgyblion fel arfer yn dechrau yn yr ysgol yn 4 oed, er nad yw addysg yn orfodol cyn 5 oed. Caiff disgyblion adael addysg amser llawn pan fyddant yn 16 oed ond rhaid iddynt fynychu addysg orfodol rannol ar ryw ffurf, fel arfer tan y byddant yn 18 oed.

Mae addysg gynradd (4–12 oed) wedi'i rhannu'n grwpiau blwyddyn (1–8), ac yng Ngrŵp 7 ac 8 y mae plant yn dechrau dysgu Saesneg yn bennaf.

Mae tri math o ysgolion uwchradd: VMBO (Voorbereidend Meddelbaar Beroesponderwisjs, cyf: addysg alwedigaethol uwchradd baratoadol) sy'n para am bedair blynedd; HAVO (Hoger Algemeeen Voortgezet Onderwijs, cyf: addysg gyffredinol uwchradd uwch) sy'n para am bum mlynedd; a VWO (Voorbereidend Wetenschappelijk Onderwijs, cyf: addysg cyn y brifysgol) sy'n para am chwe blynedd. Mae llwybrau croesi rhwng y tair ffrwd hyn yn bosibl.[25]

Yn systemau HAVO a VWO, mae disgyblion yn dewis 'proffil' o bynciau ar ddiwedd y drydedd flwyddyn. Mae'r proffil 'Diwylliant a Chymdeithas' yn addysgu'r celfyddydau ac ieithoedd tramor (Ffrangeg ac Almaeneg fel arfer). Yn Fryslân, mae Ffriseg yn cael ei haddysgu hefyd o dan y 'proffil' hwn. (Mae Iseldireg a Saesneg yn bynciau gorfodol pa 'broffil' bynnag a ddewisir).

O ran Ffriseg, mae Alex Riemersma, sy'n bennaeth Grŵp Ymchwil 'Friesian and Multilingualism in Education and Parenting' ym Mhrifysgol Stenden, yn nodi yn ei bapur trafod *From 'weak' Bilingual Education to 'strong' Trilingual Education in Fryslân (2014)* er bod addysgu Ffriseg yn orfodol yn Fryslân, 'in practice, most schools teach Frisian as a subject for only one hour per week'.[26]

Yn ôl y wefan 'Language Diversity' sy'n cael ei hariannu gan yr UE, nid oes ysgolion dwyieithog nac ysgolion Ffriseg uniaith yn y sector uwchradd yn Fryslân.[27] At hynny noda: 'In the schools that have Frisian in their curriculum, most teachers do not differentiate between mother tongue speakers and those students who learn Frisian as a foreign language' (ibid.). Mae hefyd yn tynnu sylw at y diffyg 'exchange of information between primary and secondary schools as regards curriculum, teaching methods or the results of language learning' (ibid.).

---

[25] SSB. Dim dyddiad. The Dutch educational system.[AR-LEIN] Ar gael yn: https://www.s-bb.nl/en/education/dutch-educational-system. [Cyrchwyd ym mis Awst 2017].

[26] Stenden. Dim dyddiad. Alex Riemersma (Athro'r Gwyddorau Cymwysedig).[AR-LEIN] Ar gael yn: https://stenden.com/fileadmin/user_upload/documenten/research/fries_en_meertaligheid_in_onderwijs_en_opvoeding/2014-10-12_From_Bilingual_to_Trilingual_education__Fryslan.pdf [Cyrchwyd ym mis Awst 2017].

[27] Language Diversity. 2013. The Friesians in the Netherlands. [AR-LEIN] Ar gael yn: http://language-diversity.eu/en/knowledge/regions-of-europe/die-westfriesen-in-den-niederlanden. [Cyrchwyd ym mis Awst 2017].

**ii. Addysgu a dysgu ieithoedd, ymagweddau a dulliau**

Yn Fryslân, yn ôl un o'n cyfweleion, nid yw'r system bresennol yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddisgyblion ddysgu sgiliau iaith Ffriseg penodol ond yn hytrach fod ganddynt 'feddwl agored ac ymagwedd gadarnhaol' tuag at Ffriseg (heb fod dull amlwg ar gael i fesur 'meddwl agored ac ymagwedd gadarnhaol').

Fodd bynnag, datblygiad pwysig yn y blynyddoedd diweddar fu datblygu addysg dairieithog. Mae'r fenter hon wedi'i chefnogi gan brosiect ymchwil ym Mhrifysgol Stenden. Ei nod yw hwyluso'r pontio o addysg gynradd dairieithog i addysg uwchradd amlieithog, gan ganolbwyntio'n benodol ar:

- ddatblygu Saesneg a Ffriseg fel yr ieithoedd addysgu (h.y. y tu hwnt i ieithoedd 'pwnc') mewn addysg uwchradd ac mewn rhaglenni hyfforddiant athrawon
- llinynnau cwricwlwm parhaus (h.y. cwricwlwm ac addysgu gyda gwahaniaethu)
- alinio mwy eglur rhwng lefelau cyfeirio a lefelau targed meistroli iaith yn yr ieithoedd targed amrywiol[28]

Yn rhan o'r ymdrech hon i feithrin y defnydd o dair iaith darged yn yr ysgol uwchradd, mae prosiect ar y cyd o'r enw 'My Schools Network for Trilingual Primary Education' (sy'n cydweithredu ag ysgolion yng Nghymru ac yng Ngwlad y Basg) yn anelu at gynorthwyo disgyblion i gaffael a defnyddio pob un o'r tair iaith darged, 'based on equality and with the intention of using them in other areas in their secondary education' (ibid.).

Mae uchelgais cyflwyno addysg dairieithog yn gyffredinol, ar y cyd â fframwaith asesu newydd (y *Referinsjeramt Frysk* - RRF), wedi'i gysylltu'n agos â chyflwyno strategaethau addysgu a dysgu newydd a set o adnoddau gwerthuso o'r enw 'GRIP' (ar gyfer RRF a GRIP, gweler iii isod).

Mae gan y fframwaith asesu, er mwyn cael cysondeb, un cwricwlwm sy'n cael ei rannu ledled Fryslân. Mae cyfres o ddeunyddiau addysgu'n cyd-fynd ag ef, sy'n arwain y dysgu drwy weithio ar nodau penodol. (Nodwyd yn ein cyfweliadau mai, 'dull dysgu wedi'i seilio ar dasgau' yw hwn yn y bôn, sy'n addysgeg newydd ar gyfer addysgu Ffriseg ac sy'n system hollol wahanol i'r modelau addysgu iaith blaenorol.) Mae'r gweithgareddau 'ar hap' yn yr ystyr eu bod wedi'u seilio ar themâu, ond nad ydynt yn datblygu'n thematig. Mae'r meini prawf iaith yn gysylltiedig. Gallai thema 'natur' fod yn enghraifft, lle mae'n rhaid i'r disgyblion ymweld â fferm a chyfweld â ffermwr, gan holi cwestiynau iddo am bynciau sy'n ymwneud â'r busnes amaethu. Byddai angen i'r disgyblion gynnal sgwrs yn Ffriseg â'r ffermwr, holi cwestiynau, dehongli atebion, yn ogystal ag ysgrifennu'r cwestiynau a'r atebion.

**iii. Asesu ieithoedd**

Yn y system addysg yn yr Iseldiroedd yn gyffredinol, mae'r pwyslais ar gyfuno asesu mewnol ac allanol. Ym mlwyddyn olaf addysg gynradd mae prawf addasrwydd ar gael, er nad yw'n orfodol, a bydd yr athro, y disgybl a'r rhiant yn cyfrannu i benderfynu pa fath o ysgol uwchradd sydd fwyaf addas i'r disgybl. Mae'r disgyblion sy'n gadael yr ysgol uwchradd yn sefyll  amrywiaeth o bapurau

---

[28] Stenden. Dim dyddiad. Friesian and multilingualism in education and parenting. [AR-LEIN] Ar gael yn: https://stenden.com/en/why-stenden/research/friesian-and-multilingualism-in-education-and-parenting. [Cyrchwyd ym mis Awst 2017].

wedi'u seilio ar gymysgedd o asesu mewnol ac allanol ar draws amrywiaeth o dechnegau asesu, o gwestiynau o fath amlddewis, i waith ymarferol, gwaith cwrs, arholiadau ysgrifenedig ac weithiau arholiadau llafar.[29]

Mae'n bosibl sefyll arholiad Ffriseg ar yr adegau hyn (h.y. yn 16 ac yn 18 oed), ond nid yw hyn yn gyffredin, ac er bod sgiliau darllen, ysgrifennu ac weithiau gwrando yn cael eu hasesu ar gyfer Iseldireg, mae'r arholiad canolog ar gyfer Ffriseg yn cynnwys darllen a deall yn unig.

Fodd bynnag, ar gais Rhanbarth Fryslân, yn ddiweddar rhedodd partneriaeth amlasiantaeth 'system gwerthuso' Ffriseg er mwyn datblygu 'comprehensive digital testing and classroom environment with a student monitoring system for the subject of Frisian at primary and secondary schools'.[30] (Mae'r bartneriaeth yn cynnwys *Afûk*, adrannau 'Frisian and Multilingualism in Education and Parenting' a 'Language Use and Learning', Prifysgol NHL a Stenden, a Cedin, y darparwr gwasanaethau addysgol.)

Dechreuodd yn 2013, ac ers 2016 mae'r adnoddau addysgu, dysgu ac asesu wedi bod ar gael i'w defnyddio mewn ysgolion. Fel y nodwyd uchod, gelwir hyn yn 'GRIP' ac mae wedi'i gefnogi gan wefan fywiog sy'n esbonio ei nodau a'i swyddogaethau. [31]

Mae hon yn system ddigidol hollol newydd sy'n gysylltiedig â'r Referinsjeramt Frysk (RRF) a chafodd ei pheilota'r llynedd. (Fframwaith cynnydd yw'r RRF lle mae'r lefelau'n seiliedig ar CEFR ac maent yn cynnwys pob un o'r datganiadau "Gallu gwneud" ar gyfer yr amryw barthau o A1 – C2.)[32] Yn rhan o'r fframwaith newydd, datblygwyd set o adnoddau arsylwi a gwerthuso, ynghyd â deunyddiau dysgu penodol sy'n cysylltu'r datganiadau "RWY'N GALLU" ar bob lefel.

Mae'r dull addysgu newydd sy'n deillio o hyn yn hollol ddigidol ac mae disgyblion yn cael mynediad ato drwy ddyfeisiadau fel iPads. O'n cyfweliadau dysgon ni sut, yn y rhaglen iaith newydd, mae'r agweddau gramadeg a sillafu ar y cwrs blaenorol wedi'u tynnu allan ac wedi'u troi'n gyfres o 'gêmau' digidol y mae'r disgyblion yn eu gwneud wrth eu pwysau. (Eglurwyd bod modd cymharu hyn â rhaglen Duolingo yn yr ystyr ei fod yn rhyngweithiol ac wedi'i deilwra ar gyfer unigolion, ond mae'n fwy 'chwaraeadwy' gan fod y cynnwys wedi'i lunio ar ffurf 'gêmau' yn hytrach nag 'ymarferion').[33] Caiff cynnydd ei fonitro'n unigol gyda thechnoleg ddigidol yn gwneud i hynny fod yn bosibl.

Yn cyd-fynd â'r fframwaith mae set o adnoddau hunanwerthuso i'r disgyblion a set ar wahân o adnoddau arsylwi i'r athrawon. Mae'r adnoddau hyn yn gofyn i'r disgyblion, e.e. 'pa mor hyderus a pha mor dda wnaethoch chi'r dasg, yn eich barn chi?'; ac mae'r athrawon yn llenwi ffurflen arsylwi i gofnodi eu barn ar gynnydd y disgyblion.

---

[29] WWU Munster. 2014. Das Schulsystem der Niederlande. [AR-LEIN] Ar gael yn: http://www.uni-muenster.de/NiederlandeNet/nlwissen/bildungforschung/vertiefung/bildungforschung/examen.htm. [Cyrchwyd ym mis Awst 2017].

[30] Stenden. Dim dyddiad. Friesian and multilingualism in education and parenting. [AR-LEIN] Ar gael yn: https://stenden.com/en/why-stenden/research/friesian-and-multilingualism-in-education-and-parenting. [Cyrchwyd ym mis Awst 2017].

[31] Gellir ei chyrchu drwy: http://www.grip.frl/.

[32] GRIP. 2015–16. Referinsjeramt. [AR-LEIN] Ar gael yn: http://www.grip.frl/wp-content/uploads/2016/02/Referinsjeramt_feb2016_web.pdf. [Cyrchwyd ym mis Awst 2017].

[33] Ap dysgu ieithoedd yw Duolingo. Duolingo. Dim dyddiad. Learn a Language for Free. [AR-LEIN] Ar gael yn: https://www.duolingo.com/ [Cyrchwyd ym mis Awst 2017].

Ni chafodd ei werthuso eto, fodd bynnag mae ymateb athrawon wedi bod yn gadarnhaol a bu'r deunyddiau dysgu yn ysgogi disgyblion.

**<u>iv. Nodiadau pellach</u>**

O'r holl fodelau yr edrychwyd arnynt, y datblygiad newydd yn Fryslân yw'r un sy'n cynnig y dull mwyaf arloesol er mwyn sicrhau cynnydd disgyblion ar hyd llwybr unigol. Mae'n fframwaith sy'n seiliedig ar gymhwysedd ac nid yw'n gysylltiedig ag oed fel y cyfryw, er bod elfen ‘8 Trac’ i'r model sydd wedi'i chysylltu'n fras ag 8 grŵp oed. Mae hyn wedi'i lunio fel un continwwm o ddysgu o lefelau A1 i C1 CEFR. Mae'r ysgol gynradd yn canolbwyntio ar A1 ac A2 CEFR, a'r ysgol uwchradd ar B1 a B2 CEFR. Cyflawnir C1 CEFR ar lefel brifysgol. Mae'n berthnasol i Ffriseg yn unig ac nid oes rhaglen gyfatebol er mwyn datblygu Iseldireg.

Yr hyn sy'n arbennig o ddiddorol yw sut mae’r fframwaith cyfeirio newydd yn mesur cynnydd yn erbyn 5 sgìl, gydag ‘wrth sgwrsio’ wedi'i ychwanegu at y pedwar traddodiadol sef ‘gwrando’, ‘siarad’, ‘darllen’ ac ‘ysgrifennu’.[34]

[34] Mae cydweithwyr yn Fryslân sy'n ymwneud â'r fenter hon wedi dangos parodrwydd i gyfathrebu ymhellach â swyddogion CC ac argymhellir ymweliad cyfnewid yn dilyn cylch asesu eleni.

# ADRAN 8.
# IWERDDON

## ADRAN 8. IWERDDON

Dywed Cyfrifiad 2011 yng Ngweriniaeth Iwerddon fod 41.4% o'r cyfanswm yn eu diffinio eu hunain yn siaradwyr Gwyddeleg (van Dongera, van der Meer and Sterk, 2017: 79). Gwyddeleg yw iaith genedlaethol Iwerddon ac fel y cyfryw, hi yw'r iaith swyddogol gyntaf gyda Saesneg yn ail iaith swyddogol (ibid.).

### i. Cyd-destun yr addysg ac arbenigedd yr athrawon

O ran iaith, mae tair math o ysgol yn Iwerddon yn y bôn: ysgolion cyfrwng Saesneg, ffrydiau cyfrwng Gwyddeleg sydd ynghlwm wrth ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion cyfrwng Gwyddeleg (a elwir hefyd yn ysgolion Gaeltacht os ydynt yn ardaloedd y Gaeltacht, h.y. ardaloedd sydd wedi'u pennu'n rhai Gwyddeleg eu hiaith). Ym mhob un, mae'n orfodol i bob disgybl 6 oed a hŷn astudio Gwyddeleg ac mae hyn yn parhau tan ddiwedd yr ysgol uwchradd.

Cyflwynir iaith dramor fodern yn y sector uwchradd, er i'r llywodraeth gyhoeddi, mewn datganiad ym mis Ebrill 2017, strategaeth er mwyn achosi 'significant change of mind set about language learning' lle bydd cyflwyno ITM yn nosbarthiadau uwch y sector cynradd yn chwarae rôl.[35] Mae'n tynnu sylw at CLIL fel dull effeithiol o drosglwyddo iaith, ac yn nodi y dylid addysgu agweddau ar y cwricwlwm cynradd drwy gyfrwng yr Wyddeleg (mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn ôl pob tebyg) ac ieithoedd tramor. Hefyd mae'n galw ar i fwy o amrywiaeth o ITM fod ar gael mewn ysgolion yn Iwerddon ac mae'n gweld y ffaith fod Gwyddeleg eisoes yn cael ei dysgu mewn ysgolion yn 'gaffaeliad mawr' y gellir adeiladu'r strategaeth ieithoedd arni (ibid.).

Yn ôl y *Comhairle na Gaelscolaíochta* (CnaG) mae'r sector cyfrwng Gwyddeleg wedi bod yn tyfu yn ystod y blynyddoedd diweddar gyda 'Irish-medium Education becoming the preferred choice of an increasing number of parents throughout Ireland'.[36]

Ceir:

- 143 ysgol gynradd cyfrwng Gwyddeleg y tu allan i'r Gaeltacht sy'n addysgu pob pwnc drwy gyfrwng y Wyddeleg. Cyflwynir Saesneg yn yr ysgolion hyn ar ôl 2 flynedd.
- 40 o ysgolion ôl-gynradd (h.y. uwchradd) cyfrwng Gwyddeleg y tu allan i'r Gaeltacht sy'n addysgu pob pwnc drwy'r Wyddeleg.
- 126 o ysgolion cynradd yn y Gaeltacht.
- 22 o ysgolion ôl-gynradd yn y Gaeltacht.
- Y niferoedd sy'n mynychu addysg cyfrwng Gwyddeleg gan gynnwys y Gaeltacht yw 41,486 yn y cynradd = 8% o'r cyfanswm, a 12,806 o ddisgyblion ar lefel ôl-gynradd = 3.5% o'r cyfanswm.
- 10 o ysgolion cyfrwng Saesneg sydd â 'ffrwd' Wyddeleg a 5 arall lle'r addysgir rhai pynciau drwy gyfrwng y Wyddeleg.[37][38]

[35] Adran Addysg a Sgiliau Iwerddon. Dim dyddiad. The Inspectorate. Datganiadau i'r Wasg. [AR-LEIN] Ar gael yn: http://www.education.ie/en/Press-Events/Press-Releases/2017-Press-Releases/PR17-04-19.html. [Cyrchwyd ym mis Awst 2017].

[36] Dyma'r corff cynrychioliadol ar gyfer Addysg cyfrwng Gwyddeleg. Fe'i sefydlwyd yn 2000 gan yr Adran Addysg i hyrwyddo, hwyluso ac annog Addysg cyfrwng Gwyddeleg.Ei dri phrif faes gwaith yw: darparu adnoddau addysgu; darparu gwasanaethau cefnogi; ymchwil. Gweler www.comhairle.org/english.

[37] O ohebiaeth ag Ysgrifennydd Cyffredinol An Foras Pátrúnachta. Sefydlwyd An Foras Pátrúnachta yn 1993 i gefnogi ysgolion cyfrwng Gwyddeleg yn Iwerddon ar lefel gynradd ac uwchradd. I gael rhagor o wybodaeth, gweler: An Foras

Rhestrir Gwyddeleg, ynghyd â Mathemateg a Saesneg yn 'bwnc hanfodol' er mwyn cael mynediad at raglenni Addysg Gychwynnol Gynradd i Athrawon, ac ar hyn o bryd mae angen i ddarpar hyfforddeion brofi cymhwysedd hyd at o leiaf lefel '5 Uchel' (tua 55%) yn arholiadau'r *Leaving Certifica*te, gydag amrywiaeth o gymwysterau cyfatebol derbyniol 'in lieu'.[39] Fodd bynnag, yn dilyn cynigion i godi'r lefel o oddeutu 55–59% yn y *Leaving Certificate* i 70%, adolygir y gofynion mynediad ar hyn o bryd, ac mae adroddiad ar y mater gan y Sefydliad Cymdeithasol Economaidd ac Ymchwil (*Economic Social and Research Institute*) i'w gyflwyno cyn hir.[40]

Ar gyfer athrawon ôl-gynradd sydd eisiau addysgu Gwyddeleg fel pwnc, rhaid iddynt ddarparu tystiolaeth o gymhwysedd ieithyddol yn yr iaith. Gellir dangos hyn drwy ddarparu tystiolaeth iddynt gyrraedd o leiaf lefel B2.2 ar CEFR neu lefel gyfatebol. (Dylid nodi mai'r un yw'r safon sydd ei hangen i athrawon ieithoedd eraill, e.e. Almaeneg neu Saesneg.) Fel arall gall ymgeiswyr gael mynediad ar ôl cwblhau prawf cymhwysedd iaith annibynnol yn llwyddiannus.[41]

**ii. Addysgu a dysgu ieithoedd, ymagweddau a dulliau**

Mae ysgolion cyfrwng Gwyddeleg yn dilyn dull addysg drochi sy'n galluogi plant i gaffael yr iaith yn naturiol drwy gael profiad dyddiol mewn amgylchedd Gwyddeleg. Gwyddeleg yw prif iaith yr addysgu a'r cyfathrebu mewn ysgolion cyfrwng Gwyddeleg, ond mae pwyslais sylweddol hefyd ar addysgu Saesneg yn ffurfiol.

Dylid tynnu sylw at *20-Year Strategy for the Irish Language 2010-2030*. Mae adroddiad cynnydd 2015 ar y strategaeth hon yn nodi bod deunyddiau cefnogi wedi'u paratoi i helpu ysgolion cyfrwng Saesneg i ddatblygu Gwyddeleg drwy 'drochi rhannol' a CLIL mewn ysgolion cynradd, ac mae'n argymell, wrth sôn am addysgu Saesneg mewn ysgolion cyfrwng Gwyddeleg 'may be postponed until the end of senior infants' class subject to the approval of the school's board of management' etc. [42]

**iii. Asesu ieithoedd**

Mae'r Adran Addysg a Sgiliau yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob ysgol gynradd weinyddu profion safonedig. Mae'n ofynnol i ysgolion cyfrwng Saesneg weinyddu profion safonedig mewn darllen Saesneg a Mathemateg yn ystod cyfnod mis Mai/mis Mehefin ar gyfer pob disgybl yn yr 2[il], y 4[ydd] a'r

---

Pátrúnachta. 2017. [AR-LEIN] Ar gael yn: http://www.foras.ie/en/ [Cyrchwyd ym mis Awst 2017]. D.S. mae van Dongera, van der Meer a Sterk (2017:79) yn dweud bod 247 o ysgolion cynradd cyfrwng Gwyddeleg yn Iwerddon gyfan gyda 41,961 o ddisgyblion i gyd, a 15 o ysgolion uwchradd cyfrwng Gwyddeleg a 3 ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg sy'n cynnig nifer o bynciau drwy gyfrwng y Wyddeleg, gyda 5,917 o fyfyrwyr o garfan 2014/2015 wedi'u haddysgu'n llawn neu'n rhannol drwy gyfrwng y Wyddeleg.

[38] Noder bod set ychydig yn wahanol o ffigyrau'n cael eu cyflwyno yn adroddiad van Dongera, R. Et al t.80.

[39] Education Ireland. Dim dyddiad. Primary Entry Requirements. [AR-LEIN] Ar gael yn: http://www.teachingcouncil.ie/en/Teacher-Education/Initial-Teacher-Education/Entry-to-Initial-Teacher-Education [Cyrchwyd ym mis Awst 2017].

[40] The Department of Education and Skills. Dim dyddiad. The Inspectorate.20-Year Strategy for the Irish Language 2010-2030 Progress Report: 2010 to 2015. T.5 [AR-LEIN] Ar gael yn: http://www.education.ie/en/Publications/Policy-Reports/20-Year-Strategy-for-the-Irish-Language-2010-to-2030-Progress-Report-2010-2015.pdf. [Cyrchwyd ym mis Awst 2017]; ac i weld y strategaeth ei hun, gweler 20-year Strategy for the Irish Language 2010-2030. [AR-LEIN] Ar gael yn: http://www.chg.gov.ie/app/uploads/2015/07/20-Year-Strategy-English-version.pdf. [Cyrchwyd ym mis Awst 2017].

[41] The Teaching Council of Ireland. 2015. Teacher Education. [AR-LEIN] Ar gael yn: http://www.teachingcouncil.ie/en/Publications/Registration/Documents/Curricular-Subject-Requirments-after-January-2017.pdf. Cyrchwyd ym mis Awst 2017].

[42] The Department of Education and Skills. Dim dyddiad. The Inspectorate.20-Year Strategy for the Irish Language 2010-2030 Progress Report: 2010 to 2015. T.3 [AR-LEIN] Ar gael yn: http://www.education.ie/en/Publications/Policy-Reports/20-Year-Strategy-for-the-Irish-Language-2010-to-2030-Progress-Report-2010-2015.pdf. [Cyrchwyd ym mis Awst 2017].

6$^{ed}$ dosbarth yn flynyddol. Mae'n ofynnol i ysgolion cyfrwng Gwyddeleg weinyddu profion safonedig mewn darllen Gwyddeleg, darllen Saesneg a Mathemateg ar yr un sail.[43]

Ar lefel uwchradd, mae dwy set o arholiadau. Gweinyddir y rhain gan Gomisiwn Arholiadau'r Wladwriaeth (*State Examination Commission*). Yr arholiadau hyn yw'r *Junior Certificate* (a sefir pan fydd disgyblion tua 15 mlwydd oed) a'r *Leaving Certificate* (a sefir pan fydd disgyblion tua 17/18 mlwydd oed) y mae'r rhan fwyaf (70%) o bobl ifanc yn eu harddegau'n ei sefyll. Gwyddeleg yw'r unig bwnc gorfodol ar gyfer y *Leaving Certificate* (nid yw Saesneg yn orfodol). Asesir y *Junior Certificate* a'r *Leaving Certificate* (y gellir ei sefyll ar lefel Uwch neu Gyffredin) yn allanol.

Ar hyn o bryd, asesir y *Junior Certificate* fel arholiad ysgrifenedig ar ddiwedd y rhaglen (h.y. ym mis Mehefin ar ddiwedd y drydedd flwyddyn) gydag arholiadau gwrando a llafar mewn Gwyddeleg ac ITM yn cael eu sefyll rywbryd yn ystod y drydedd flwyddyn, sef y flwyddyn olaf.[44]

Ar hyn o bryd mae'r *Junior Certificate* yn cael ei ddileu'n raddol ac mae'n cael ei ddisodli gan *Junior Programme* a fydd wedi'i seilio ar asesu parhaus. Deallwn nad yw'r proffesiwn wedi croesawu'r cam hwn, ac i weithredu diwydiannol fod o ganlyniad.  O ran y Wyddeleg, y brif feirniadaeth yw mai un math o arholiad sydd, a'i fod ar lefel L2 heb wahaniaeth gwirioneddol rhwng siaradwyr L1 a L2. Profir Saesneg fel L1.[45] Mae rhywfaint o fyfyrwyr yn ardaloedd y Gaeltacht yn siaradwyr Gwyddeleg L1, ond hyd yn oed yn ardaloedd y Gaeltacht, asesir yr iaith fel iaith L2, tra asesir Saesneg fel iaith L1.

Datgelodd ein cyfweliadau i newid sylweddol fod i faes llafur y *Leaving Certificate* (a arholwyd am y tro cyntaf yn 2012) lle tynnwyd cryn dipyn o'r cynnwys llenyddiaeth o'r cwricwlwm ar gyfer Gwyddeleg (gan gynnwys elfennau diwylliannol, hunaniaeth iaith a hanes ac ati) er mwyn ceisio gwella hyder cyfathrebol.  Yn ogystal esboniwyd yr asesir y pedwar sgìl (‘gwrando’, ‘siarad’, ‘darllen’ ac ‘ysgrifennu’) gyda phwysoli o 40% i'r elfen lafar.[46] Fodd bynnag, y farn gyffredin yw bod y profi'n wael, gyda'r myfyrwyr yn cael rhestr o bynciau a lluniau 18 mis cyn y profion.  Dysgir y rhain ar y cof ac yna fe'u ‘chwydir allan eto’.

O ran ITM ar lefel y *Junior Certificate*, ceir opsiwn llafar ond un sydd prin yn cael ei sefyll. Cynigir y bydd y rhaglen newydd, a fydd yn cyfuno asesu parhaus ac arholiadau ysgrifenedig, gydag asesu mewnol ac allanol, yn cynnwys asesu sgiliau llafar ar gyfer ITM.

Ar gyfer y *Leaving Certificate* ar y Lefel uwch yn yr arholiadau ITM, caiff yr elfen lafar ei marcio ar 25%, ac ar 20% ar gyfer y Lefel Gyffredin.  Ar gyfer yr asesiadau llafar ITM, fel sy'n digwydd gyda'r Wyddeleg, mae arholwyr allanol yn ymweld â'r canolfannau ac yn recordio'r sesiynau i gyd.

---

[43] National Council for Curriculum and Assessment. Dim dyddiad. Standardised Testing. [AR-LEIN] Ar gael yn: http://www.ncca.ie/en/Curriculum_and_Assessment/Early_Childhood_and_Primary_Education/Primary-Education/Assessment/Standardised_Testing/. [Cyrchwyd ym mis Awst 2017].

[44] Citizen’s Information. 2017. Junior Certificate. [AR-LEIN] Ar gael yn: http://www.citizensinformation.ie/en/education/state_examinations/junior_certificate_programme.html [Cyrchwyd ym mis Medi 2017].

[45] For L1, L2: Language 1, Language 2 ac ati, gweler y rhestr byrfoddau.

[46] I gael rhagor o fanylion gweler The Department of Education and Skills. Dim dyddiad. The Inspectorate.20-Year Strategy for the Irish Language 2010-2030 Progress Report: 2010 to 2015. T.4 [AR-LEIN] Ar gael yn: http://www.education.ie/en/Publications/Policy-Reports/20-Year-Strategy-for-the-Irish-Language-2010-to-2030-Progress-Report-2010-2015.pdf. [Cyrchwyd ym mis Awst 2017]; ac i weld y strategaeth ei hun, gweler 20-year Strategy for the Irish Language 2010-2030. [AR-LEIN] Ar gael yn: http://www.chg.gov.ie/app/uploads/2015/07/20-Year-Strategy-English-version.pdf. [Cyrchwyd ym mis Awst 2017].

Nid oes elfen lafar/gwrando ar gyfer Saesneg, ac ni chaiff y papurau iaith eu croesgyfeirio at raddfa fel CEFR.

Mae'r Teastas Eorpach na Gaeilge (TEG), yn trefnu set ar wahân o arholiadau Gwyddeleg, ond mae'r rhain wedi'u hanelu at oedolion yn bennaf. Mae'r rhain wedi'u mapio yn erbyn chwe lefel ar hyd llwybr dilyniant sydd wedi'i gysylltu â CEFR (gweler Atodiad 2 ac Atodiad 9, Tabl 12). Profion cymhwysedd cyffredinol yw'r rhain sy'n edrych ar y pedwar sgìl traddodiadol. Mae angen i bob elfen gael ei phasio er mwyn ennill 'tystysgrif lawn' ar bob lefel. Mae'r dilyniant i'r lefel nesaf yn dibynnu ar dystiolaeth argyhoeddiadol o gymhwysedd yn y lefel flaenorol ar draws pob sgìl. Fodd bynnag, mae'n bosibl sefyll yr arholiad llafar yn unig ac ennill 'tystysgrif rannol' ('partial certification').[47] Mae ar gael i fyfyrwyr ysgol uwchradd ond mae ar wahân ac yn wahanol i'r system addysg ysgolion, ac mae ar lefel uwch nag arholiad y *Leaving Certificate* ar gyfer Gwyddeleg.

Yn Iwerddon, mae'r profi'n amrywio'n fawr o'r naill iaith i'r llall.  Mae'r asesu Saesneg yn cynnwys astudio llenyddiaeth ond ers 2010 nid oes gan y model Gwyddeleg unrhyw bwyslais ar hanes/diwylliant gydag un testun yn unig mewn 70 tudalen yn rhoi unrhyw bwyslais ar lenyddiaeth. Un farn a fynegwyd oedd bod dysgu testun ar y cof yn benodol at ddibenion asesu'n golygu bod 'dad-ddiwyllio' ('deculturalisation') wedi digwydd a nodwyd yr arferid astudio 6 nofel yn rhan o'r asesiad Gwyddeleg 30–40 blynedd yn ôl.

Nid  yw technoleg ddigidol yn rhan o'r asesiad.  O ran deunyddiau cymorth, mae rhai apiau wedi'u creu'n annibynnol ond nid ariannwyd dim yn ganolog. Fodd bynnag, mae Arolygaeth yr Adran Addysg a Sgiliau yn ei hadroddiad yn 2015 ar y ddarpariaeth addysg cyfrwng Gwyddeleg yn ysgolion y Gaeltacht, yn cydnabod yr angen am archwilio ac am wireddu'n llawn y 'potential for the use of ICT to support teaching and learning, develop linkages, and share resources and examples of effective pedagogical practice' (2015: 40).[48]  Dylid nodi hefyd fod gan Duolingo Gwyddeleg 2.3 miliwn o ddefnyddwyr a Gwyddeleg yw'r 9[fed] iaith fwyaf poblogaidd yng nghyfres y Duolingo, ac yn ôl ein cyfweliadau, credir bod nifer uchel o fyfyrwyr y *Leaving Certificate* yn defnyddio'r ap hwn.

Gellir dod o hyd i unrhyw adnoddau a ariennir yn ganolog drwy wefan *An Chomhairle um Oideachas Gaeltachta agus Gaelscolaíochta*. (Gweler y wybodaeth ychwanegol yn Atodiad 3).[49]

**<u>iv. Nodiadau pellach</u>**

Mae newidiadau yn yr arfaeth yn system Iwerddon ond hyd yma nid oes arwyddion a yw'r cynigion hyn wedi bod yn llwyddiannus neu fel arall. Wrth ysgrifennu'r adolygiad hwn, nid oedd adroddiad cynnydd 2016 ar *20-Year Strategy for the Irish Language 2010–2030* ar gael eto.

---

[47] TEG. 2017. TEG Levels. [AR-LEIN] Ar gael yn: http://www.teg.ie/. [Cyrchwyd ym mis Awst 2017].
[48] https://www.education.ie/en/Press-Events/Events/Gaeltacht-Education-Policy-Proposals/Case-Study-Primary-and-Post-Primary-Gaeltacht-Schools_Irish-medium-Educational-Provision_2015.pdf.
[49] http://www.cogg.ie/.

# ADRAN 9.

# Y MODELAU ASESU A DDEFNYDDIR AR GYFER SAESNEG FEL AIL IAITH

# NEU SAESNEG I SIARADWYR IEITHOEDD ERAILL

**ADRAN 9. Y MODELAU ASESU A DDEFNYDDIR AR GYFER SAESNEG FEL AIL IAITH NEU SAESNEG I SIARADWYR IEITHOEDD ERAILL**

Yn yr ysgolion iaith niferus sy'n gweithredu yn y DU, yn cynnig amryw o raddfeydd cymwysterau mewn Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), caiff cynnydd ei fapio fel mater o drefn drwy gysylltu'r asesiadau a'r arholiadau â CEFR. Er mwyn dod yn ddinesydd y DU, yn ogystal â'r prawf 'Life in the Uk', dim ond cymwysterau Saesneg y mewnfudwyr sy'n cael eu mapio i'r CEFR, a dim ond cymwysterau sy'n seiliedig ar asesu crynodol drwy arholiad.[50]

Ar gyfer cymwysterau yn y Gymraeg, defnyddir graddfeydd CEFR yn fwyaf amlwg ym maes Cymraeg i Oedolion (gweler Atodiad 7).

Mae'r Cyngor Prydeinig yn rhestru amryw o gyrff sy'n cynnig cymwysterau Saesneg gan gynnwys:

Ascentis

Cambridge English

C&G City and Guilds

English Speaking Board International

IELTS International English Language Testing System

LCCI London Chamber of Commerce and Industry International Qualifications

(where the English programmes are specifically work-related, e.g. 'English for Business' etc.)

Password English Language Testing Ltd

PTE Pearson Language Tests

TKT Teaching Knowledge Test

TOLES Test of Legal English Skills

TCL Trinity College London

Gwelir y rhain ac eraill ar wefan y Cyngor Prydeinig.[51]

Er mwyn dangos enghraifft, isod mae rhai manylion o'r ddarpariaeth a gynigir gan dri o'r uchod:

i. Cambridge English
ii. International English Language Testing System (IELTS)
iii. Password English Language Tests

Ym mhob achos, gwelwn fod tystiolaeth o gysondeb o ran y derminoleg a ddefnyddir, yn ogystal ag ymdeimlad cyffredin o ran sut gellir diffinio'r continwwm cynnydd.

[50] Amfwy o wybodaeth, gweler https://www.gov.uk/browse/citizenship/citizenship.
[51] Ar gael yn: https://www.britishcouncil.org/exam/uk-boards-overseas/english-language.

**i. Cambridge English**

Mae *Cambridge English* yn llwybr poblogaidd i bennu lefelau cymhwysedd ac mae prifysgolion, cyflogwyr a llywodraethau'n ei gydnabod. Rhoddir llawer o bwyslais ar 'gyfathrebu' a dywedir bod yr arholiadau wedi'u llunio'n benodol er mwyn asesu 'how learners use English to communicate in real-life situations'.[52]

Ymysg y saith rheswm y mae'r cwmni'n eu cynnig dros ddewis ei raglenni:

- mae myfyrwyr sy'n paratoi at yr arholiadau'n cael sgiliau cyfathrebu sy'n ddefnyddiol yn eu bywyd bob dydd, gwaith ac astudio
- mae'r arholiadau'n cyfateb i CEFR[53]

Mae'n werth nodi sut mae Cambridge English yn pwysleisio bod yr asesiadau wedi'u cefnogi gan set lawn o ddeunyddiau addysgu a dysgu, ac at hynny eu bod yn cynnig amrywiaeth o raglenni sy'n gallu cymhwyso athrawon â chymwysterau a gydnabyddir yn broffesiynol, fel CELT– P (Certificate in English Language Teaching – Primary) neu CELT– S (Certificate in English Language – Secondary). Mae'r rhain, fe honnir, yn galluogi myfyrwyr i gyfuno gwella eu sgiliau iaith personol â gwella eu haddysgeg iaith.

**ii. International English Language Testing System (IELTS)**

Mae IELTS yn ddull cyffredin arall o fesur cymhwysedd ieithyddol pobl sy'n dymuno byw neu astudio mewn gwlad lle mae Saesneg yn brif iaith cyfathrebu.[54] Mae'r system hon yn defnyddio graddfa 9 pwynt i nodi'r lefelau cymhwysedd. Rhoddir sgôr am bob elfen o'r prawf. Gwneir cyfartaledd o'r sgoriau unigol a thalgrynnir y cyfartaledd i gynhyrchu sgôr band cyffredinol. Fe'u disgrifir fel a ganlyn:

9. Expert user
8. Very good user
7. Good user
6. Competent user
5. Modest user
4. Limited user
3. Extremely limited user
2. Intermittent user
1. Non-user
0. Did not attempt the test

I weld tabl llawn a disgrifyddion lefel, gweler Atodiad 6, Tabl 8.

Graddnodwyd y 9 pwynt fel eu bod yn cyfateb i lwybr dilyniant CEFR fel y'u dangosir yn Nhabl 3 isod.

---

52 I weld hyn a rhagor o fanylion, gweler: http://www.cambridgeenglish.org/.
53 ibid.
54 I gael manylion, gweler gwefan IELTS, sydd ar gael yn: https://www.ielts.org/.

**TABL 3.** Sut mae IELTS yn mapio'r lefelau dilyniant yn erbyn CEFR.[55]




## Password English Language Tests

Cynigir cyfres boblogaidd o brofion ar-lein gan 'Password English Language Tests', a lansiwyd yn 2008 ac a ddatblygwyd gan Centre for Research in English Language Learning and Assessment (CRELLA). Yn ôl eu gwefan, fe'u datblygwyd 'to support schools, colleges and universities by providing accurate and reliable *gold standard* English language assessment'.[56] Mae'r rhain hefyd yn cyfateb i CEFR (fel y gwelwyd yn Nhabl 4 isod) ac mae ganddynt gyfres o brofion sy'n addas i ddysgwyr iau.

[55] IELTS. 2017. Cefr-Ielts. [ONLINE]. Available at: https://www.ielts.org/~/media/images/resources/cefr-ielts-300px.ashx [Cyrchwyd ym mis Awst 2017].
[56] www.englishlanguagetesting.co.uk.

**TABL 4.**Sut mae 'Password English Language Tests' yn mapio eu lefelau yn erbyn CEFR.[57]

| Password Score | CEFR |
|---|---|
| Password 7.0 and above | C1 and above |
| Password 6.5 | B2 |
| Password 6 | |
| Password 5.5 | |
| Password 5 | B1 |
| Password 4.5 | |
| Password 4 | |
| Password 3.5 | A2 |
| Password 3 | |
| Pre-password | |

## CEFR i fyfyrwyr ESOL iau.[58]

Yn ogystal mae'r Cyngor Prydeinig yn tynnu sylw at amrywiaeth o gyrsiau iaith sydd wedi'u hanelu'n benodol at bobl ifanc. Mae'r ystod hon o gamau dilyniant yn 'benodol i oed' i ryw raddau o ran ei bod yn defnyddio cyd-destunau priodol i'r disgybl cynradd a gwaelod yr ysgol uwchradd. Mae'r camau hyn hefyd wedi'u cysylltu â CEFR gyda thair lefel benodol i'r dysgwyr iau: *Starters*, *Movers* a *Flyers*; lle mae *Starters* wedi'u gosod ar lefel 'cyn A1', *Movers* ar 'A1' a *Flyers* ar 'A2', a phob un yn cwmpasu'r pedwar sgìl craidd.

Mae'r cyrsiau hyn yn disgwyl y bydd y myfyrwyr ifanc yn cymryd 'an active role in their own learning and reflect on their progress', ac er eu bod yn cwmpasu pob agwedd ar gyfathrebu, mae'r pwyslais ar 'developing confidence in speaking to equip students with the English they will need for future academic study, employment and social situations'.[59]

[57] Cyngor Ewrop. 2017. CEFR [AR-LEIN]. Ar gael yn: http://www.coe.int/t/dg4/linguistic/Cadre1_en.asp. [Cyrchwyd ym mis Awst 2017].
[58] Mae CE wedi coladu samplau cynrychioliadol o ddisgrifyddion o gymwyseddau iaith a ddatblygwyd i ddysgwyr ifanc 7–10 oed, wedi'u tynnu o bortffolios ieithoedd Ewropeaidd a ffynonellau eraill ac a fapiwyd i set estynedig disgrifyddion enghreifftiol CEFR. Tunde Szabo. 2016. Preliminary consultative edition Resource for Educators [AR-LEIN]. Ar gael yn: https://rm.coe.int/1680697fca. [Cyrchwyd ym mis Awst 2017].
[59] Gwelir enghreifftiau ar, e.e. British Council. 2017. Qatar. [AR-LEIN] Ar gael yn www.britishcouncil.qa/en/english/courses-children/levels. [Cyrchwyd ym mis Awst 2017].

Dywedir y bydd myfyrwyr ar y cyrsiau i rai 7-10 oed, er enghraifft:

- yn trafod pynciau o ddiddordeb i blant ac yn uniaethu'r rhain â'u profiadau eu hunain
- yn meithrin eu hyder a'u diddordeb yn yr iaith Saesneg
- yn dysgu ac yn ymarfer amrywiaeth eang o swyddogaethau iaith
- yn dod ar draws iaith naturiol drwy weithgareddau gan roi pwrpas go iawn iddynt gyfathrebu mewn sefyllfaoedd cyfarwydd ac ystyrlon
- yn ehangu eu gwybodaeth am y byd
- yn datblygu sgiliau meddwl a datrys problemau ac yn modelu gwerthoedd ac ymddygiad cyffredinol

Dywedir am y myfyrwyr ar gam nesaf y cyrsiau (i rai 11-17 oed) nid yn unig y byddant yn datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth a restrir uchod ond byddant hefyd yn 'engage in a variety of activities such as interviews, surveys, role-plays, giving presentations, writing book reviews etc. to facilitate and develop a rich and effective use of English'.[60] Rhoddir sylw arbennig i sut bydd y cwrs yn defnyddio TGCh a deunyddiau dilys eraill.[61]

Mae Cambridge English hefyd wedi datblygu ystod o raglenni'n benodol i ysgolion:

| | |
|---|---|
| <u>Key (Key English Test: KET) for Schools</u> | |
| able to communicate in simple situations | (A2) |
| <u>Preliminary (Preliminary English Test: PET) for Schools</u> | |
| mastered the basics of English and now has practical language skills for everyday use | (B1) |
| <u>First (First Certificate of English) for Schools</u> | |
| have the language skills they need to communicate in an English-speaking environment | (B2) |

Yma eto, mae pob arholiad yn ymdrin ag ystod o sgiliau ieithyddol, ac awgryma'r argraff gyntaf fod y modelau hyn o bosibl yn haws ac yn fwy hygyrch na lefelau cyfredol y Fframwaith Llythrennedd a ddefnyddir yng Nghymru.

[60] ibid.
[61] ibid.

# ADRAN 10.
# CASGLIADAU, YSTYRIAETHAU AC ARGYMHELLION

**ADRAN 10. CASGLIADAU, YSTYRIAETHAU AC ARGYMHELLION**

Yn gyffredinol, y casgliad pwysicaf yw bod newid ar y gweill o ran y dulliau addysgu, dysgu ac asesu iaith yn yr awdurdodaethau sy'n sail i'r trosolwg hwn.

Canlyniad y newidiadau polisi ar draws Ewrop o ran dysgu ieithoedd, ynghyd â mwy o ymdrech i hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol, yw bod y ffyrdd y cyflwynir ieithoedd mewn systemau addysg yn cael eu hadolygu. Mae'r adolygu hwn yn edrych o'r newydd nid yn unig ar yr hyn yw'r sgiliau iaith craidd a sut cânt eu haddysgu a'u hasesu, ond hefyd ar rôl yr iaith yn y gymdeithas.[62]

Er inni ganfod tystiolaeth o'r newidiadau hyn gyda'r dulliau newydd sy'n cael eu peilota, nid oes arwyddion eglur eto o ran a ydynt yn llwyddiannus ai peidio. Ac er nad oes un model sy'n cynnig ei hunan yn ei gyfanrwydd yn hawdd i Gymru, yn sicr mae elfennau o rai modelau sy'n werth edrych ymhellach arnynt (gweler 'Argymhellion' isod).

Wrth ddod i gasgliad, gellir grwpio'r themâu sy'n codi o'r adolygiad o dan y penawdau canlynol:

- Gwerth dysgu ieithoedd a sgiliau iaith
- Lluosieithrewydd/Amlieithrwydd
- Amlieithrwydd ac addysgeg
- Amlieithrwydd ac asesu
- Set sgiliau ieithoedd mewn cyd-destun amlieithog
- Rôl technoleg ddigidol
- Nodweddion penodol sydd yr un fath â rhai yng Nghymru

**<u>'Gwerth' dysgu ieithoedd a sgiliau iaith</u>**

Gwelir gwerth addysgol dysgu ieithoedd, lle caiff ei nodi, gymaint o ran datblygu dealltwriaeth wybyddol a diwylliannol disgyblion ag o ran datblygu set o sgiliau er mwyn gwella eu cyflogadwyedd. Mae erthygl Pöyhönen yn dangos dwy ochr y 'darn arian ieithoedd' yn eglur pan fo'n gofyn: 'What are the costs for the society if its citizens do not know languages?' (2009: 149) ac mae'n ateb ar y naill law gyda set bellach o gwestiynau sy'n cyfeirio at werth iwtilitaraidd ieithoedd: 'How much will we need to increase translation and interpretation services? How much will it cost if an individual cannot get employment because of her/his inadequate language skill? (ibid); cyn troi i gyflwyno ateb arall sy'n dangos dealltwriaeth o 'werth' iaith y tu hwnt i'r gweithle:

> However, when analysing the effects of language education, other than financial factors, social factors must also be taken into account. Language education may also be seen as a national value choice: the value basis of a society can be educating its citizens to become individuals who have good language skills and who understand and respect other cultures (ibid.).

[62] Wrth i'n harolwg dynnu at ei derfyn, cyhoeddwyd dau bapur, a'r ddau'n cadarnhau'r cyflwr hwn o newid. Gweler: *Key Data on Teaching Languages at School in Europe*. Ar gael ar-lein ar: https://webgate.ec.europa.eu/fpfis/mwikis/eurydice/images/0/06/KDL_2017_internet.pdf and *the Policy Review: The role of assessment in European language policy –a historical overview*. Ar gael ar-lein ar: http://www.meits.org/policy-papers/paper/the-role-of-assessment-in-european-language-policy-a-historical-overview. [Cyrchwyd ym mis Medi 2017].

Mae hyn yn adleisio gosodiad Cyngor Ewrop sy'n gweld hyrwyddo 'linguistic diversity and language learning as a way to achieve greater unity among European citizens' (yn Gutierrez Eugenio a Saville, 2017: 2).

Mae deall gwerth iaith fel hyn yn arbennig o ddefnyddiol o ran pedwar diben y cwricwlwm newydd yng Nghymru, lle mae'r drafodaeth mewn cytgord â'r mathau hyn o ddelfrydau:

> Dibenion y cwricwlwm yng Nghymru yw ceisio sicrhau bod plant a phobl ifanc yn datblygu fel:
>
> - dysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
> - cyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn yn eu bywydau a'u gwaith
> - dinasyddion egwyddorol, gwybodus Cymru a'r byd
> - unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau cyflawn fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas.
>
> (LlC1, 2015: 29)

Mae hefyd yn ddiddorol o ran sut mae'r cwricwlwm newydd yng Nghymru wedi dod ag 'ieithoedd', 'llythrennedd' a 'chyfathrebu' ynghyd (mewn un Maes Dysgu a Phrofiad) fel tri is-bennawd gwahanol. Mae cyfeirio'n benodol at 'ieithoedd' ar wahân i 'lythrennedd' a 'chyfathrebu' nid yn unig yn rhoi dealltwriaeth o 'iaith' fel gwyddor neu set resymol o reolau, ond hefyd y posibilrwydd o edrych ar iaith fel cyfrwng sy'n datblygu ymdeimlad o berthyn a hunaniaeth drwy ei mynegiant creadigol mewn cystrawen idiosyncratig a chysyniadau unigryw. Er bod hon yn drafodaeth sydd y tu hwnt i gwmpas ein trosolwg ni, mae'n amlwg y bydd angen ystyried sut bydd unrhyw ddulliau asesu newydd yn annog ac yn mesur cynnydd ym mhob un o dair elfen y Maes Dysgu a Phrofiad hwn.[63]

**<u>Lluosieithrewydd/Amlieithrwydd</u>**

Mae'r ffordd y mynnir rhoi 'ieithoedd', yn y ffurf luosog, yn y cwricwlwm newydd yng Nghymru (gweler uchod) yn gwneud inni gydredeg â'r systemau addysg eraill sy'n ymdrechu i gynhyrchu siaradwyr nifer o ieithoedd ac i gynhyrchu polisi iaith '1+2' neu '2+1'.

Gan fod ysgolion yn yr awdurdodaethau y buom yn eu hystyried yn ceisio gwireddu'r uchelgais hwn, gwelsom sut maent yn dechrau mynd ati i feithrin ymagwedd 'integredig' at ieithoedd. Weithiau gwelir yr 'integreiddio' hwn yn y modd y cyflwynir nifer o ieithoedd yn ogystal ag o ran cyfuno addysgu ieithoedd â phynciau eraill ac o ran datblygu dulliau asesu sy'n ein galluogi i gymharu ar draws ieithoedd. Yn y Ffindir gwelsom fod y dull integredig hwn yn unol ag uchelgais Cyngor Ewrop i ddefnyddio addysgu a dysgu ieithoedd er mwyn datblygu repertoire o adnoddau sy'n galluogi disgyblion i gaffael cymhwysedd rhyngddiwylliannol sy'n arwain at ddeall 'gwahaniaeth' (neu *otherness* yn Saesneg) yn well.

Yn y Ffindir yn benodol, lle mae pob disgybl yn dysgu o leiaf 3 iaith (eu mamiaith + 2), gwelsom y gwneir cymariaethau a chysylltiadau ieithoedd lle defnyddir gwybodaeth o un iaith i gynorthwyo'r broses o ddysgu iaith arall, sydd yn ei dro'n datblygu dealltwriaeth y disgyblion o sut mae iaith yn gweithio (h.y. gramadeg iaith). Hefyd anogir disgyblion i ddefnyddio'r holl ieithoedd y maent yn eu gwybod i gael mynediad at wybodaeth i ddatblygu dysgu ar draws pynciau. Felly mae'r ymagwedd 'integredig' hon at ddysgu ieithoedd yn amlieithog ac amlddisgyblaethol. At hynny, yn y Ffindir yn

[63] Noder bod cysyniad 'aml-lythrennedd' yn arbennig o ddiddorol o safbwynt Cymru, o gofio sut mae 'Cyfathrebu' wedi'i gynnwys yn elfen ar wahân ym Maes Dysgu a Phrofiad 'Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu' yn niwygiad cwricwlwm *Dyfodol Llwyddiannus* Donaldson yng Nghymru (LlC1, 2015).

arbennig gwelsom fod ieithoedd yn cael eu defnyddio hefyd i gyfoethogi canfyddiadau disgyblion o amrywiaeth ddiwylliannol, i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u parch at wahaniaethau diwylliannol.

**Amlieithrwydd ac addysgeg**

Cafwyd yr enghraifft fwyaf trawiadol o integreiddio trosglwyddo iaith ag addysgu pynciau eraill yng Ngwlad y Basg, lle mae dull CLIL yn datblygu'n ffordd boblogaidd o godi cymhelliant disgyblion wrth siarad ieithoedd nad ydynt yn rhai mamiaith (Lasagabaster, D. a Lopez Beloqui R, 2015). Mae'r addysgeg hon yn fanteisiol o ran cynyddu oriau cyswllt disgyblion â'r iaith (nid yn unig o ran nifer ond hefyd o ran amlder) heb orfod ychwanegu oriau at y dosbarthiadau iaith ar draul pynciau eraill. Yn ogystal, ystyrir bod unrhyw gyfleoedd eraill i ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r dosbarth/ysgol yn ffyrdd effeithiol o gynyddu ymgysylltu a hyder disgyblion.

Ym mhob awdurdodaeth, gwelsom ddulliau trosglwyddo iaith yng nghyfnodau cynnar addysg a oedd yn debyg i'r dull 'trochi' sy'n gyffredin mewn dosbarthiadau meithrin a derbyn mewn ysgolion mewn rhannau o Gymru, (cf dull 'y gawod' yn y Ffindir, er enghraifft).

Yn Fryslân a'r Ffindir gwelsom dystiolaeth o ddysgu'n seiliedig ar dasgau a defnydd o ddeunyddiau dilys, ac yn ôl adroddiadau, o'r Ffindir o leiaf, po fwyaf roedd athrawon yn defnyddio dulliau dysgu dilys, mwyaf roedd eu disgyblion yn mwynhau dysgu, a gorau oedd eu perfformiad mewn darllen a deall.

Yn gyffredinol, gwelsom fod parodrwydd i dderbyn potensial disgyblion fel siaradwyr tair iaith yn dod â phosibiliadau addysgeg (a chwricwlwm) sy'n rhoi pwyslais ar:

- gymharu ieithoedd a defnyddio gwybodaeth am un iaith i gynorthwyo dysgu iaith arall
- deall sut mae iaith yn gweithio (h.y. gramadeg iaith)
- datblygu siaradwyr hyderus nifer o ieithoedd
- defnyddio iaith i ddatblygu dealltwriaeth a pharch at wahaniaethau diwylliannol
- defnyddio pob iaith sydd ar gael i gael gafael ar wybodaeth am bynciau eraill

**Amlieithrwydd ac asesu**

Yn gyffredinol, gwelsom sut, yn y systemau ysgol yn y Ffindir, Gwlad y Basg a Fryslân, cydbwysir asesu allanol ag asesu ffurfiannol, mewnol, a sut, ar y cyfan, mae'r arholiadau'n ymwneud â'r pedwar sgìl craidd, heb yr elfen lafar ar brydiau.

Nid oedd y ddwy iaith swyddogol o dan sylw'n cael eu hasesu mewn ffordd gydradd mewn unrhyw un o'r gwledydd a ystyriwyd (ac yn wir, nid oedd y rhain ac ieithoedd pellach a addysgwyd yn cael eu hasesu mewn ffordd gydradd chwaith). Fodd bynnag, gwelsom mai yn y Ffindir yn unig roedd unrhyw un iaith yn cael ei hasesu mewn ffyrdd gwahanol yn dibynnu ar y cyd-destun (e.e. iaith cyfrwng yr ysgol), lle mae cwricwla a dulliau asesu gwahanol i ieithoedd a astudir fel mamiaith, fel iaith 'dramor' 1af neu fel 2il iaith dramor. Mae hyn o ddiddordeb arbennig i Gymru gan fod gennym gydraddoldeb o ran y ffordd yr asesir y ddwy iaith swyddogol (Cymraeg y lleiafrif a Saesneg y mwyafrif) mewn rhai cyd-destunau ond nid mewn eraill (gweler paragraff olaf yr adran hon).

Mae'r Ffindir, yn arbennig, yn rhoi cryn bwyslais ar asesu mewnol, ffurfiannol ac mae hyn yn cael effaith ar y disgwyliadau o ran arbenigedd yr athrawon sy'n mynd y tu hwnt i wybodaeth am bwnc arbenigol i gynnwys dealltwriaeth o dechnegau asesu.

Yn gyffredinol, mae tystiolaeth fod symud o asesu sy'n cyfeirio at y norm i asesu sy'n seiliedig ar feini prawf, ac mae'r cysyniad o asesu ipsatif, er na fynegir hynny fel y cyfryw, fel petai'n rhan o'r symud yn Fryslân a'r Ffindir lle y datblygir cynlluniau dysgu mwyfwy unigoledig sy'n cynnwys hunanasesu.

Ym mhob un o'r pedair awdurdodaeth o dan sylw, gwelsom fod CEFR yn cael ei ddefnyddio i fapio cynnydd, er nad yw hyn bob amser o fewn system ysgolion y wladwriaeth.

Yn y Ffindir, yng Ngwlad y Basg ac yn Fryslân, defnyddir CEFR i fapio cynnydd nid yn unig ar gyfer Ffinneg, Swedeg, Basgeg a Ffriseg ond ar gyfer Saesneg hefyd. Yn Iwerddon, defnyddir CEFR ym maes dysgwyr Gwyddeleg i oedolion yn unig.

Mae Gwlad y Basg yn mapio cynnydd dysgwyr Basgeg ar gyfres o gymwysterau a elwir yn *Perfiles Lingüísticos* (PL, cyf: Proffiliau Iaith neu Ieithyddol). Mae modd mynd atynt y tu allan i'r system ysgol a gellir eu cysylltu â lefelau ar CEFR.

Gwelsom sut mae CEFR yn feincod a ddefnyddir mewn llawer o wledydd ar gyfer llawer o ieithoedd, a'i fod yn ddigon hyblyg i gael ei addasu lle bo angen i weddu i anghenion dysgwyr ar draws grwpiau oed ac yn ôl natur yr ieithoedd a asesir.

Gwelsom y defnyddir CEFR yn gyffredin yn y DU i fapio llwybrau cynnydd i fyfyrwyr ESOL, ac yng Nghymru, fel yn Iwerddon, defnyddir CEFR yng nghyd-destun Cymraeg/Gwyddeleg i Oedolion.

Yng Nghymru'n gyffredinol, yn absenoldeb CEFR (neu ddull safonedig tebyg), gwelsom fod yr amrywiaeth yn y dulliau o fesur cynnydd cymhwysedd iaith dysgwyr yn ei gwneud hi'n anodd cymharu ar draws ieithoedd. Hynny yw, heblaw am yn y system ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg, lle mae disgyblion yn sefyll arholiadau TGAU Cymraeg a Saesneg cyfatebol, ni all dysgwyr (nac eraill) gysylltu un set o gymwysterau a lefelau iaith â'r rhai sydd mewn iaith arall.

Mae dryswch penodol yn codi yng Nghymru wrth i'r Gymraeg gael ei rhannu'n 'Gymraeg' a 'Chymraeg Ail Iaith'. Y bwriad gwreiddiol tu cefn i rannu Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith oedd cydnabod cefndiroedd ieithyddol amrywiol yr ymgeiswyr, gan roi chwarae teg a chyfle i ddysgwyr o gefndiroedd di-Gymraeg gael cymhwyster. Un o ganlyniadau anffodus hynny fu creu ieithwedf wahanol, fel bod iaith 'dysgwyr' ac iaith siaradwyr iaith gyntaf yn dra gwahanol; o leiaf mae canfyddiad yn bodoli eu bod yn siarad ieithoedd o wahanol fath. Rhaid derbyn, wrth reswm, bod cynifer o amrywiadau ar unrhyw iaith ag y mae siaradwyr o'r iaith honno, ond yn y bôn, fel 'iaith a gydnabyddir yn swyddogol', un iaith yn unig sydd. Nid oedd unrhyw iaith wedi'i rhannu'n 'ddau fath' yn union fel y mae yng Nghymru mewn unrhyw achos arall. O'r gwledydd o dan sylw, y Ffindir yw'r unig un sy'n gosod yr ieithoedd brodorol yn ôl trefn (Ffinneg, Swedeg, Sámi) fel iaith gyntaf, ail, a thrydedd iaith ac ati. Fodd bynnag, mae'n gallu goresgyn y math o ddryswch sydd gennym drwy ddefnyddio graddfa CEFR, ac felly gall sicrhau bod cymwyseddau myfyrwyr ar draws ieithoedd yn gallu cael eu darllen a'u cymharu'n ystyrlon.

**Set sgiliau ieithoedd mewn cyd-destun amlieithog.**

Gwelsom mai sgil effaith y polisi 1+2 neu 2+1 iaith, er na wneir y cysylltiad yn benodol, yw bod systemau addysg sy'n gweithio mewn cyd-destun amlieithog yn wynebu set sgiliau 'craidd' traddodiadol sy'n annigonol. Yn ogystal â'r pedwar sgìl traddodiadol, gwelsom fod system Fryslân yn cydnabod sgil sgwrsio fel 5$^{ed}$ sgìl ar wahan i 'llafar/siarad'ac efallai yn hynny o beth yn dod yn agos at y 'cymhwysedd rhyngweithredol' y cyfeirir ato yn *Dyfodol Llwyddiannus,* LlC1, 2015: 60).

Hefyd rydym wedi gweld bod galwadau am gydnabod sgiliau mwy cynnil 'dealltwriaeth' a 'gweithio

ar draws ieithoedd'. Dyma sgiliau hanfodol o ran annog dealltwriaeth fwy cynhwysol o ddwyieithrwydd ac amlieithrwydd ac o ran derbyn cymhlethdod y cymwyseddau ieithyddol sydd eu hangen er mwyn goroesi mewn cyd-destun dwyieithog, amlieithog a hyd yn oed lluosieithog.

Bydd rhoi sylw i'r galwadau hyn a chydnabod bod angen datblygu dulliau addysgu yn ogystal â dulliau asesu addas yn her benodol. Dyma'r hyn y mae Gorter a Cenoz yn awgrymu yn eu hastudiaeth o Wlad y Basg a Fryslân, pan fyddant yn gweld problemau gwerthuso pobl ddwyieithog a phobl amlieithog yn erbyn 'yardstick of the ideal monolingual', yn hytrach na 'evaluating them as multilingual speakers who have a linguistic repertoire which is different from that of monolinguals' (2011: 659-669). Maent yn cydnabod bod 'a holistic view of multilingual proficiency as a reference is more challenging and difficult to put into practice in syllabus design, teaching practice and assessment, but it approaches the teaching of different languages from a more realistic perspective' (ibid.).

## Rôl technoleg ddigidol

O ran technoleg ddigidol, gwelsom fod pob un o'r pedair system addysg yn datblygu agweddau ar dechnoleg ddigidol yn eu modelau asesu i raddau amrywiol. Y model mwyaf radical yw un Fryslân sy'n datblygu ei darpariaeth ddigidol yn integredig ar draws ei rhaglen addysgu, dysgu ac asesu newydd. Fodd bynnag, megis dechrau mae pob un o'r rhaglenni asesu digidol y daethpwyd ar eu traws yn ystod yr ymchwil ac felly ni ellir eu gwerthuso'n llawn ar hyn o bryd.

## Nodweddion penodol sydd yr un fath â rhai yng Nghymru

O'r pedair gwlad yr edrychwyd arnynt, Gwlad y Basg ac Iwerddon yw'r rhai sydd â'r proffiliau ieithyddol tebycaf i Gymru, lle mae'r iaith leiafrifol yn bodoli wrth ymyl iaith fwyafrifol a lle nad yw'r ddwy iaith yn perthyn yn agos i'w gilydd. O gofio bod datganiadau niferoedd y cyfrifiad diweddaraf yng Ngwlad y Basg yn dangos cynnydd yn nifer y siaradwyr Basgeg, mae'n werth nodi'r gwahaniaethau rhwng y modelau yng Ngwlad y Basg, yn Iwerddon ac yng Nghymru.[64] Mae rhai o'r agweddau sy'n amlwg yn system Gwlad y Basg ond heb fod mor amlwg yn systemau Iwerddon a Chymru'n cynnwys:

i) defnyddio CEFR i fapio a dynodi lefelau cynnydd (yn y system ysgol ac yn y system dysgu iaith 'oedolion')
ii) cydbwysedd rhwng asesu mewnol ac allanol
iii) addysgeg amlieithog hyblyg gyda phwyslais ar ddatblygu amlieithrwydd
iv) addysgeg CLIL gyfoethog sy'n sicrhau bod nifer uchel o oriau cyswllt ar yr amserlen er mwyn hyrwyddo addysgu iaith
v) rhaglenni iaith dwys mewn addysg athrawon
vi) cwricwlwm sy'n cynnwys dimensiynau diwylliannol fel llenyddiaeth ar draws pob iaith
vii) gorfodaeth gan y llywodraeth i fod yn rhugl ar lefel uchel mewn Basgeg ar gyfer swyddi cyhoeddus a llwybrau cyflogaeth eraill.

[64] Eustat. Euskal Estatistika Eraundea/Instituto Vasco de Estadística, cyf: Sefydliad Ystadegau Gwlad y Basg. 2013. *Más de seis de cada diez residentes en la C.A. de Euskadi tiene algún conocimiento de euskera* [AR-LEIN] Ar gael yn: http://www.eustat.eus/indice.html. [Cyrchwyd ym mis Medi 2017].

**ARGYMHELLION**

O'r cwestiynau a oedd yn sail i'n hymchwiliad, y ddau y mae'n werth edrych arnynt ymhellach yw: 'y berthynas rhwng asesu a strategaethau addysgu/dysgu' a 'mecanweithiau mapio cynnydd y dysgwr unigol'.

Isod ceir rhai argymhellion parthed sut y gellid gwneud hyn er mwyn llywio datblygiadau yng Nghymru. Drwy weithredu ar yr argymhellion hyn, rydym yn annog Cymwysterau Cymru i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol yn y maes gan gynnwys Llywodraeth Cymru, CBAC, Estyn a'r Consortia Rhanbarthol, yn ogystal ag eraill sy'n ymwneud â datblygu'r cwricwlwm newydd i Gymru.

**Argymhellliad 1**

Ystyried cynnal ymchwil pellach f fel yr amlinellir islaw i ddeall yn fanylach rai agweddau ar addysgu ac asesu hyfedredd iaith:

<u>i) O Wlad y Basg</u>

- ystyried y *Perfiles Lingüísticos* ymhellach, gan gynnwys unrhyw ddeunyddiau cwricwlwm ac asesu sy'n cyd-fynd â nhw
- cyfarfod â chynrychiolwyr grŵp CLIL Ikastola i drafod deunyddiau cwricwlwm ac asesu, methodoleg ac unrhyw dystiolaeth o effaith

<u>ii) O'r Ffindir</u>

- ystyried ymhellach y newid o asesu sy'n cyfeirio at y norm i asesu sy'n cyfeirio at feini prawf er mwyn edrych ar heriau a manteision posibl newid o'r fath
- ystyried rôl prosesau asesu ipsatif yng nghyd-destun dysgu ac addysgu ieithoedd.

<u>iii) O Fryslân</u>

- cyfarfod â'r rhai sy'n ymwneud â'r RRJ/GRIP i drafod deunyddiau cwricwlwm ac asesu, methodoleg ac unrhyw dystiolaeth o effaith

<u>iv) O Iwerddon</u>

- dadansoddi deunyddiau cwricwlwm ac asesu TEG

<u>v) O Gymru</u>

- Cynhyrchu dull o fapio cymariaethau rhwng y fframweithiau a'r modelau asesu iaith a ddefnyddir yng Nghymru er mwyn cael argraff o amrywiadau yn y disgrifiadau lefel a hyfedredd.

<u>vi) O'r holl wladwriaethau a ystyriwyd</u>

- Cynnal dansoddiad systematig, gan gynnwys ystyried sgiliau a lefelau, o sampl o bapurau arholiad sydd wedi'u hanelu at rai 16 oed
  - i) o Wlad y Basg: Basgeg, Sbaeneg, Saesneg
  - ii) o'r Ffindir: Ffinneg, Swedeg, Saesneg, Sámi,
  - iii) o Fryslân: Ffriseg, Iseldireg, Saesneg
  - iv) o Iwerddon: Gwyddeleg, Ffrangeg, Saesneg
  - v) o Gymru: Cymraeg (Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith), Saesneg ac ITM

**Argymhelliad 2**

Ystyried sut gellid gwella asesu hyfedredd iaith drwy archwilio posibiliadau a goblygiadau:

- asesu a chydnabod sgwrsio/rhyngweithio a 'chroesieithu' (h.y. sgiliau amlieithog, e.e. cyfieithu, aralleirio, cyfieithu ar y pryd, trawsieithu ac ati) fel sgiliau sy'n benodol ar wahan i'r sgiliau craidd traddodiadol. [65]

- datblygu (ymhellach) arfau asesu ar gyfer y 4 sgil craidd traddodiadol:

    - Gwrando, (lle mae'r pwyslais yn glir ar wrando goddefol a gweithredol - h.y. 'gwrando a deall')
    - Darllen, (lle mae'r pwyslais yn glir ar ddarllen goddefol a gweithredol - h.y. 'darllen a deall')
    - Ysgrifennu
    - Siarad

- datblygu 'Tystysgrif Ddealltwriaeth', efallai wedi'i hanelu'n bennaf at oedolion sy'n dysgu'r iaith, yn seiliedig ar ddarllen/gwrando sy'n galluogi dinasyddion i'w gosod eu hunain ar y continwwm dwyieithog, er mwyn annog dilyniant o fod yn ddefnyddwyr iaith goddefol i fod yn ddefnyddwyr iaith gweithredol.

**Argymhelliad 3**

Cefnogi bwriad Llywodraeth Cymru i sefydlu continwwm dysgu iaith drwy:

- wneud dadansoddiad cymharol o gynnwys, asesu a safonau perfformio yn arholiadau TGAU Cymraeg Iaith a Chymraeg Ail Iaith, er mwyn gweld a oes gorgyffwrdd a phwyntiau cymharu posibl
- fapio'r fanyleb, yr asesiadau a gwaith ymgeiswyr ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith cyfredol a Chymraeg Ail Iaith cyfredol yn ofalus yn erbyn CEFR
- fanteisio ar y modelau cynnydd newydd a amlinellir yn adolygiad Donaldson *Dyfodol Llwyddiannus* ac archwilio sut y gellir sefydlu un 'Llwybr Cynnydd' i bob iaith. Yn y cyd-destun hwn ystyried addasrwydd i CEFR (neu addasiad syml ohono) fel fframwaith sy'n cysoni'r cymariaethau (cymhleth) presennol rhwng Disgrifyddion Lefel, y Fframwaith Llythrennedd a graddau allanol fel TGAU a Safon Uwch. Y nod yn y pen draw yw galluogi dinasyddion Cymru (yn ddisgyblion ysgol ac yn oedolion fel ei gilydd) i ddweud beth yw eu 'Proffil Ieithyddol' eu hunain yn erbyn pob un o'r ieithoedd y maent yn eu siarad, e.e. 'Cymraeg: C1', 'Saesneg: B2'; 'Sbaeneg: A2' ac ati.
- weithio gyda'r prosiect CAMAU (gweler isod) i archwilio sut y gellid disgrifio cynnydd a'i ddatblygu orau
- ystyried beth yw goblygiadau asesu cyflwyno dull CLIL i addysgu ieithoedd a sut y gellid archwilio hyn drwy ddatblygu'r cwricwlwm newydd.
- ystyried ymateb (neu weithio gyda'r rhai sy'n ymateb) i wahoddiad Cyngor Ewrop i sefydliadau addysgol sydd â diddordeb mewn edrych ar berthnasedd y disgrifyddion newydd i'w cyd-destun addysgol yn y flwyddyn academaidd 2017-18.[66]

[65] Rydym wedi osgoi'r term 'trawsieithu' yn fwriadol oherwydd yr elfen o ddryswch y mae'n ei hachosi mewn rhai trafodaethau academaidd.

**Gallai meysydd cydweithredu pellach gynnwys:**

Gweithio gydag Addysg Athrawon i ddatblygu Dysgu a Datblygiad Proffesiynol Parhaus:

Wrth i ddulliau asesu roi mwy o bwyslais ar 'gynlluniau dysgu unigol', mae angen i athrawon fod yn hyderus wrth ddefnyddio graddfeydd sy'n seiliedig ar feini prawf fel CEFR.

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Ysgolion Aroloesi a'r Consortia; yn benodol gyda'r grŵp *'Ieithoedd Llythrennedd a Chyfathrbeu'* er mwyn sefydlu rhwydwaith o 'Arweinwyr Addysgu Iaith', lle gellid peilota agweddau ymarferol a threfniannol gweithredu'r uchod ar unwaith; e.e. sefydlu addysgeg CLIL yn yr amserlen.

Gweithio gyda phrosiect CAMAU, sef y bartneriaeth rhwng PCYDDS a Phrifysgol Glasgow sy'n cydweithredu â LlC i edrych ar sut gellir disgrifio cynnydd a'r ffordd orau o'i ddatblygu o ran pob un o Feysydd Dysgu a Phrofiad y cwricwlwm newydd. Yn ogystal mae'r prosiect yn ymchwilio i sut gellir mynegi, disgrifio a defnyddio camau cynnydd er mwyn cynorthwyo'r broses ddysgu yn y modd mwyaf effeithiol. Rhan o'r drafodaeth o ran maes cwricwlwm 'Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu' yw gofyn sut gellir gwahaniaethu disgrifyddion cynnydd generig er mwyn ystyried profiad dysgwyr ieithoedd amrywiol.

Gweithio gyda CBAC i sefydlu:

i) G*rŵp Asesu'r Gymraeg, a* fydd yn cynnwys y Gymraeg yn y sector cyfrwng Cymraeg, (C1 ar hyn o bryd); Cymraeg yn y sector Saesneg (C2 ar hyn o bryd) a Chymraeg i Oedolion, a dod â'r arbenigedd sydd ym mhob sector at ei gilydd a manteisio arno.

ii) Gr*ŵp Asesu Ieithoedd* i gynnwys Grŵp Asesu'r Gymraeg yn ogystal â Saesneg ac ITM.

[66] Cydlynydd prosiect Brian North. Cyngor Ewrop. Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd (CEFR). [AR-LEIN]. Ar gael yn: http://www.coe.int/en/web/common-european-framework-reference-languages. [Cyrchwyd ym mis Awst 2017].

# ADRAN 11.

# LLYFRYDDIAETH A FFYNONELLAU

## ADRAN 11. LLYFRYDDIAETH A FFYNONELLAU


- Alte (2002) *The ALTE can do project English version, Articles and Can Do statements produced by the members of ALTE 1992–2002.* ©ALTE
- Alte (2106) *Language tests for access, integration and citizenship: An outline for policy m*akers Council of Europe. Ar gael ar-lein ar: http://www.alte.org/attachments/files/alte_lami_language_test_policy_booklet_en_dresz.pdf
- Beacco, J.C., Fleming, M., Goullier, F., Thürmann, E., Vollmer, H. (gol.) gyda chyfraniadau gan Joseph Sheils. (2016a) *A Handbook for Curriculum Development and Teacher Training. The Language Dimension in All Subjects*. Adran Polisi Addysg: Cyngor Ewrop
- Beacco, J.C., Byram, M., Cavalli, M., Coste, D., Egli Cuenat, M., Goullier, F., Panthier, J., (gol.) (2016b) *Guide for the Development and Implementation of Curricula for Plurilingual and Intercultural Education.* Adran Polisi Addysg: Cyngor Ewrop
- Bwrdd Addysg Cenedlaethol y Ffindir (2014) *National Core Curriculum for Basic Education 2014* Porvoon Kirjakeskus. Rhifyn Kindle Kindle Locations 1601–1605
- Cazden, C.; Cope, B.; Fairclough, N.; Gee, J. et al, (1996) A pedagogy of multiliteracies: Designing social futures. Harvard Educational Review; Gwanwyn 1996; 66, 1; 60–92
- Cenoz, J. a Gorter, D. (2011/2) 'Multilingual education for European minority languages: The Basque Country and Fryslân' yn *International Review of Education* 57 (5) 651–666
